Ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddatganiad Polisi Cyhoeddus y CPS ar Erlyn achosion Masnachu mewn Pobl

Os ydych yn darllen hwn ar gyfrifiadur

Os cewch broblemau yn darllen y ddogfen ymgynghoriad PDF hon wrth ddefnyddio rhaglen meddalwedd arbennig, efallai y gwelwch ei bod yn haws cael mynediad at yr wybodaeth ar ein gwefan. Ewch i: www.cps.gov.uk/consultations/ht_index.html

Am beth mae'r ymgynghoriad hwn yn sôn?

Rydym wedi drafftio Datganiad Polisi Cyhoeddus sy'n dweud wrthych chi sut ydym yn delio ag achosion yn ymwneud â dioddefwyr troseddau Masnachu mewn Pobl. Rydym eisiau gwybod eich barn ar y mater.

Beth yw Masnachu mewn Pobl?

Mae Masnachu mewn Pobl yn drosedd ddifrifol iawn.

Mae Masnachu mewn Pobl yn cynnwys:

- Recriwtio plant ac oedolion agored i niwed
- Eu symud i le arall, yn aml i wlad arall
- Defnyddio bygythiadau, grym neu dwyll i'w cael i wneud rhywbeth yn erbyn eu hewyllys
- Eu defnyddio i wneud arian neu i ddarparu gwasanaeth i'w masnachwyr

Mae Masnachu mewn Pobl yn fath o gaethwasiaeth modern. Gellir gorfodi dioddefwyr i sefyllfaoedd o:

- Buteindra a gwasanaethau rhyw
- Llafur gorfodol
- Gwaith domestig
- Tynnu organau
- Caethwasanaeth
- Galluogi eraill i ennill manteision
- Gweithgaredd troseddol

Gall Masnachwyr mewn Pobl symud pobl o wlad i wlad. Gallant hefyd symud pobl o fewn y Deyrnas Unedig. Gall eu dioddefwyr fod o wledydd eraill neu o'r Deyrnas Unedig.

Maent yn achosi niwed difrifol i'r bobl maent yn eu cam-drin a gall hefyd gael effaith ddinistriol ar eu teuluoedd ac ar gymdeithas yn gyffredinol.

Am beth mae'r ymgynghoriad Datganiad Polisi Cyhoeddus ar Erlyn achosion o Fasnachu mewn Pobl yn sôn?

Mae Datganiadau Polisi Cyhoeddus yn cyflwyno i'r cyhoedd sut fyddwn yn gwneud pethau. Mae'r Datganiad Polisi Cyhoeddus hwn yn esbonio beth fydd erlynwyr yn wneud pan fydd achos o fasnachu mewn pobl yn cael ei gyfeirio atynt. Mae'n esbonio'n rôl a beth allwn ni wneud i helpu dioddefwyr a thystion sy'n cefnogi gweithdrefnau troseddol. Mae hefyd yn esbonio pa gamau eraill allwn ni eu cymryd i amharu ar fasnachu mewn pobl.

Rydym am sicrhau bod ein Datganiad Polisi Cyhoeddus yn glir, teg a chywir.

I'n helpu i wneud hyn, byddem yn falch pe gallech ddarllen y Datganiad Polisi Cyhoeddus ac ateb ambell gwestiwn.

Byddem yn gwerthfawrogi'ch sylwadau a'ch barn wrth i ni ddatblygu fersiwn derfynol y datganiad.

Beth yw'r cwestiynau?

1. A yw'r cyflwyniad yn esbonio'r rheswm dros y ddogfen yn glir ac yn dangos faint o bwys mae'r CPS yn rhoi ar daclo masnachu mewn pobl? Os nad yw, awgrymwch sut y gallem wneud hyn yn gliriach.

2. A yw'r disgrifiad o ddeddfwriaeth masnachu mewn pobl a smyglo wedi ei esbonio'n eglur?

3. A yw rôl y CPS a'r esboniad o sut ydym yn gwneud penderfyniadau i erlyn yn glir? Os nad yw, awgrymwch sut allem wneud y ddwy adran hon yn fwy eglur.

4. A ydym wedi darparu digon o esboniad o sut ydym yn creu erlyniad mewn achosion o fasnachu mewn pobl? A oes digon o esboniad o rôl y dioddefydd a beth allwn wneud i gefnogi'r dioddefwyr a'r tystion?

5. A ydym yn dangos yn ddigon clir sut fyddwn yn delio â phlant fel dioddefwyr a thystion a'n polisi ble gallai plentyn wynebu cyhuddiadau am droseddau y cawsant eu gorfodi i gyflawni tra'u bod mewn sefyllfa o orfodaeth? Os na, dywedwch sut y gallem wneud hynny.

6. A yw rôl erlynwyr wrth dderbyn pledion a dedfrydu'n eglur? A oes angen i ni ddarparu mwy o wybodaeth i esbonio dulliau eraill o aflonyddu ar fasnachwyr?

7. Unrhyw sylwadau eraill am y ddogfen hon?

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae ffurflen ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellir lawrlwytho fersiwn Word o dudalen gartref yr ymgynghoriad yn www.cps.gov.uk/consultations/ht_index.html.

Ymateb trwy e-bost:

- Darllenwch y Datganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyn achosion o Fasnachu mewn Pobl
- Lawrlwythwch y ffurflen ymateb
- Atebwch y cwestiynau ar y ffurflen ymateb trwy deipio yn y gofodau

- Rhowch eich enw, sefydliad (os yn berthnasol) a chyfeiriad post
- Cadwch y ffurflen wedi ei chwblhau ar eich cyfrifiadur
- Anfonwch neges e-bost atom (consultations@cps.gsi.gov.uk) ac atodi eich ffurflen ymateb
- Rhaid i'ch ymateb ein cyrraedd erbyn 31 Hydref 2010

Ymateb trwy'r post:

- Darllenwch y Datganiad Polisi Cyhoeddus ar Erlyn achosion o Fasnachu mewn Pobl
- Argraffwch y ffurflen ymateb a'i chwblhau
- Rhowch eich enw, sefydliad (os yn berthnasol), cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost (os oes gennych un) i ni.
- Anfonwch y ffurflen wedi ei chwblhau atom yn y cyfeiriad isod:

  Ymgynghoriad Masnachu mewn Pobl
  Cyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi
  Gwasanaeth Erlyn y Goron
  Rose Court
  2 Southwark Bridge
  Llundain
  SE1 9HS

- Rhaid i'ch ymateb ein cyrraedd erbyn 31 Hydref 2010

Cyfrinachedd ymatebion

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y CPS, y Llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig.

Yn ogystal, gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth yn cynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os ydych am i'r wybodaeth a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna Gôd Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni'n gryno pam ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi ei darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn

cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG i fod yn rhwymol i'r CPS.

Sicrhewch fod eich ymateb wedi ei nodi'n glir os ydych am i'ch ymateb a'ch enw fod yn gyfrinachol. Bydd ymatebion cyfrinachol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb ystadegol o sylwadau a dderbyniwyd a barnau a fynegwyd. Bydd y CPS yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 - gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diolch i chi am ddweud eich barn wrthym. Byddwn yn darllen yr holl ymatebion a'u hystyried wrth ysgrifennu'r datganiad terfynol.

Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk/consultations/.

Meini prawf Ymgynghori'r Llywodraeth

Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (DBIS) yn gosod saith maen prawf ymgynghori ar gyfer rhedeg ymgynghoriadau cyhoeddus effeithiol. Y meini prawf ymgynghori allweddol yw:

Maen Prawf 1: Pryd i ymgynghori

Dylid ymgynghori'n ffurfiol yn ystod cam pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y deilliant polisi.

Maen Prawf 2: Hyd ymarferion ymgynghori

Dylai ymgynghoriadau barhau am o leiaf 12 wythnos fel arfer, gan roi ystyriaeth i gyfnodau hirach o amser ble fo'n ddichonadwy a synhwyrol.

Maen Prawf 3: Eglurder cwmpas ac effaith

Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir am y broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei argymell, y cwmpas i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwyliedig y cynigion.

Maen Prawf 4: Hygyrchedd ymarferion ymgynghori

Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i, ac wedi eu targedu'n amlwg at y bobl y bwriedir eu cyrraedd.

Maen Prawf 5: Baich ymgynghori

Mae cadw baich ymgynghori i isafswm yn hanfodol i sicrhau ymgynghoriadau effeithiol a chefnogaeth ymgyngoreion i'r broses.

Maen Prawf 6: Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori

Dylid dadansoddi ymatebion ymgynghori yn ofalus a darparu adborth eglur i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

Maen Prawf 7: Gallu i ymgynghori

Dylai swyddogion sy'n rheoli ymgynghoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgant o'r profiad.

Datganiad Polisi Cyhoeddus y CPS ar Erlyn achosion o Fasnachu mewn Pobl

Cynnwys:

Cyflwyniad	Tudalen 2
Beth yw masnachu mewn pobl?	Tudalen 4
Beth yw smyglo?	Tudalen 6
Rôl y CPS	Tudalen 7
Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	Tudalen 8
Deddfwriaeth	Tudalen 10
Grymoedd ariannol	Tudalen 13
Creu achos yr erlyniad	Tudalen 14
Dioddefwyr a Thystion	Tudalen 18
Dioddefwyr sy'n blant	Tudalen 23
Dioddefwyr llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig	Tudalen 26
Derbyn pledion	Tudalen 28
Rôl yr Erlynydd mewn dedfrydu	Tudalen 29
Erlyn sawl a ddrwgdybir a allai fod yn ddioddefwyr masnachu	Tudalen 32
Dulliau eraill o amharu ar fasnachu	Tudalen 33
Cwynion	Tudalen 34
Casgliad	Tudalen 34
Atodiad A: Deddfwriaeth	Tudalen 35
Atodiad B: Rhestr o fanylion cyswllt asiantaethau	Tudalen 38
Rhestr Termau	Tudalen 40

Cyflwyniad

Mae masnachu mewn pobl yn drosedd ddifrifol sy'n diraddio gwerth bywyd dynol. Mae'n fath o gaethwasanaeth ac yn cynnwys recriwtio a symud yr oedolion a phlant mwyaf agored i niwed i ymwela ohonynt mewn sefyllfaoedd diraddiol am enillion ariannol i'w masnachwyr. Mae masnachu'n aml yn digwydd ar draws ffiniau rhyngwladol; ond gall hefyd ddigwydd o fewn y Deyrnas Unedig. Gall dioddefwyr fod yn wladolion tramor, ond gallant hefyd gynnwys Dinasyddion Prydeinig. Mae'n cael effaith ddinistriol, nid yn unig ar yr unigolion a fasnachir, ond hefyd ar eu teuluoedd; mae'n achosi niwed i ddioddefwyr ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Y modd mwyaf effeithiol o drechu masnachu mewn pobl yw ymyrraeth, sy'n cynnwys erlyn yn llwyddiannus. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn ymroddedig i leihau'r niwed a achosir gan fasnachu a chamfanteisio trwy erlyn y rhai sy'n gyfrifol. Mae'r datganiad polisi hwn yn esbonio'r modd yr ydym ni, y CPS, yn delio ag achosion o fasnachu mewn pobl a'r ystod eang o droseddau eraill sy'n gysylltiedig ag o. Mae'n esbonio beth mae'r CPS yn wneud, sut ydym yn erlyn achosion o fasnachu mewn pobl a pha fesurau allwn ni ddibynnu arnynt a chefnogi dioddefwyr wedi eu masnachu. Mae'r ddogfen wedi ei chynllunio ar gyfer y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr wedi eu masnachu, yn broffesiynol neu'n bersonol, er y gallai hefyd fod o ddiddordeb i ddioddefwyr a thystion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Wrth nodi dulliau o wella ansawdd ein herlyniadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr masnachu, rydym yn creu cysylltiadau gyda throseddau eraill a gyflawnwyd yn bennaf yn erbyn menywod, yn aml o fewn cyd-destun o rym a rheolaeth. Mae masnachu mewn pobl yn rhan o strategaeth trosfwaol Trais yn erbyn Menywod y CPS, sydd hefyd yn cynnwys trais a chamdriniaeth rywiol. Wrth greu'r cysylltiadau hyn, gall erlynwyr wneud cysylltiadau a throsglwyddo ymarfer da rhwng troseddau o drais yn erbyn menywod – yn nhermau diffynyddion a dioddefwyr.

Mae'r ddogfen hon yn darparu datganiad clir ynglŷn â rôl y CPS a sut fyddwn yn gwneud penderfyniadau mewn erlyniadau, o benderfynu p'un ai i gyhuddo rhywun o drosedd droseddol i beth ddylai'r cyhuddiad neu gyhuddiadau hynny fod. Bydd yn esbonio sut ydym yn gweithio gyda'r heddlu ac ymchwilwyr eraill i adeiladu achos, a'n rôl o ran cefnogi a diogelu dioddefwyr a thystion trwy'r broses.

Dioddefwyr a Thystion

Rydym yn cydnabod rôl ganolog dioddefwyr a thystion i gyflawni erlyniadau llwyddiannus. Fe wyddom fod nifer o ddioddefwyr a thystion yn cymryd siawns sylweddol wrth roi tystiolaeth yn erbyn eu masnachwyr ac ymwelwyr; byddant

yn aml yn ofni oblygiadau rhoi tystiolaeth ac efallai y byddant yn gyndyn i gefnogi achosion troseddol. Gallant hefyd boeni na fydd neb yn eu credu. Gall dioddefwyr a thystion hefyd fod yn bryderus neu ofnus ynglŷn â dod i'r llys i roi eu tystiolaeth. Er ein bod yn gwybod y bydd yn anodd, byddwn yn gweithio gydag ystod o asiantaethau eraill megis y Prosiect POPPY, yr heddlu a'r llysoedd i'w darparu ag amddiffyniad a chefnogaeth briodol i sicrhau eu diogelwch ac i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau. (Mae rhestr o asiantaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a fasnachir ar gael yn **Atodiad B: Rhestr o fanylion cyswllt asiantaethau**.) Bydd y CPS yn ystyried yr ystod o fesurau sydd ar gael i gefnogi a diogelu'r dioddefwyr a fasnachwyd sy'n rhoi tystiolaeth er mwyn eu hannog i roi eu tystiolaeth gorau posibl ac i wneud ceisiadau priodol i'r llys.

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd plant a phobl ifanc angen cefnogaeth atodol. Mae plant sy'n ddioddefwyr masnachu yn debygol o fod angen gwasanaethau lles ac, yn aml, amddiffyn a diogelu. Er y bydd y prif gyfrifoldeb dros les a diogelwch plant fel arfer yn nwylo asiantaethau eraill megis gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg, byddwn yn ymgysylltu'n bositif ag awdurdodau ac asiantaethau eraill i gefnogi diogelu plant a phenderfynu ar y dull gorau o'u cefnogi a diogelu.

Gweithio gydag eraill

Mae'r CPS yn un o nifer o asiantaethau sy'n ymateb i heriau delio â masnachu mewn pobl ac rydym yn cefnogi'r angen am ymateb amlasiantaethol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, cydweithwyr eraill yn y system cyfiawnder troseddol, grwpiau cymunedol a'r sector wirfoddol i nodi dulliau o gynyddu aflonyddu, ataliad, ymchwiliad ac erlyniad yn ogystal â gwella'r gofal ac amddiffyniad o ddioddefwyr a thystion. Fe wyddom y bydd sefydliadau anllywodraethol yn aml â mwy o brofiad o ddioddefwyr a'u gwahanol anghenion ac nad llwybr cyfiawnder troseddol yw'r unig fodd o ymateb i fasnachu mewn pobl; efallai y bydd angen defnyddio cyfraith droseddol (a sifil) ar y cyd â gwasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr.

Rôl ryngwladol

Oherwydd natur fyd eang masnachu mewn pobl, gyda dioddefwyr yn aml yn cael eu cludo ar draws nifer o wahanol wledydd i'w cyrchfan, mae gan y CPS rôl arwyddocaol o ran cefnogi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei hymdrechion rhyngwladol i helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac erlynwyr mewn gwledydd datblygol i ymchwilio ac erlyn masnachu eu hunain, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth. Trwy adeiladu gallu yn y gwledydd hyn, rydym yn ceisio eu helpu i erlyn eu troseddwyr a throseddau'n well, gan leihau'r niwed posibl trwy droseddau yno ac yn y Deyrnas Unedig. Wrth ymateb i'r drosedd fyd eang hon,

mae'r CPS hefyd yn cymryd rhan mewn Timau Ymchwilio ar y Cyd sy'n dimau amlasiantaethol yn cynnwys swyddogion gorfodi'r gyfraith ac erlynwyr o fwy nag un wlad, i daclo'r gadwyn o droseddwyr ledled gwahanol wledydd sy'n gyfrifol am recriwtio, symud a chamfanteisio ar ddioddefwyr agored i niwed.

Cefnogir y datganiad polisi hwn gan ganllaw manylach i erlynwyr y CPS fel bod ganddynt hwythau hefyd ddealltwriaeth glir o'r polisi a'r modd gorau o ymateb i'r math hwn o drosedd. Efallai na fydd ambell air neu frawddeg a ddefnyddir yn y ddogfen yn gyfarwydd i bawb. Felly rydym wedi creu **Geirfa o Dermau** ar ddiwedd y ddogfen hon ble rydym wedi diffinio rhai o'r geiriau a brawddegau a ddefnyddiwyd.

Beth yw masnachu mewn pobl?

Mae masnachu mewn pobl yn drosedd yn erbyn dynoliaeth sy'n effeithio ar bob gwlad yn y byd. Masnachu mewn pobl yw caffael pobl trwy ddefnyddio grym, gorfodaeth neu ddulliau eraill gyda'r nod o gamfanteisio arnynt. Gall dynion, menywod a phlant syrthio i ddwylo masnachwyr naill ai yn eu gwledydd eu hunain neu dramor. Mae masnachu'n digwydd ar draws ffiniau ac o fewn gwlad.

Mae gan fasnachu mewn pobl dair elfen gyfansoddol. Y rhain yw:

- **Y Weithred** – recriwtio; cludo; trosglwyddo; llochesu; a derbyn pobl.

- **Y Modd** – bygythiadau neu ddefnydd o rym; gorfodaeth; herwgipio; twyll; dichell; cam-drin pŵer neu wendid; a rhoi taliadau neu fanteision.

- **Y Pwrpas** – camfanteisio, yn cynnwys: puteinio eraill; cam-drin rhywiol; llafur gorfodol; caethwasanaeth neu arferion tebyg; tynnu organau; a mathau eraill o gamfanteisio.

Yn aml fe ystyrir masnachu mewn pobl i fod yn drosedd gyfundrefnol sy'n gweithio ar raddfa fasnachol fawr. Ond mae masnachu yn cwmpasu ystod eang o weithgaredd troseddol, ac fe ellir hefyd ei gyflawni gan un unigolyn y mae'r dioddefydd yn adnabod neu'n perthyn iddo; mae hyn yn ei gwneud yn haws i'r masnachwr recriwtio pobl gan y gall fod yna berthynas o ymddiriedaeth yn barod.

Gall y modd o fasnachu fod yn fwy cyfrwys na'r rhai a ddisgrifir uchod hefyd. Er enghraifft, efallai y bydd gan ddioddefwyr ymlyniad emosiynol i'w masnachwr ac fe allan nhw gael eu bwlio'n seicolegol neu orfodi i sefyllfa o gamfanteisio. Neu efallai eu bod yn gwbl ddibynnol ar y rhai sy'n eu gwneud yn ddioddefwyr.

Mae'r gwahanol fathau o gamfanteisio y mae hyn yn eu cwmpasu yn eithaf eang ac yn aml yn cynnwys y mathau canlynol o ymddygiad:

- **Rhywiol** – yn aml trwy buteindra ble mae'r dioddefwyr yn cael eu gosod mewn puteindy oddi ar y stryd, yn cael eu gorfodi i weld nifer o gwsmeriaid, ac yn derbyn ychydig iawn neu ddim arian. Mae dioddefwyr yn aml yn dioddef trais a chamdriniaeth rywiol a chorfforol. Er ei bod yn effeithio ar fenywod yn bennaf, gellir hefyd camfanteisio'n rhywiol ar ferched a bechgyn ifanc a dynion. Nid yw wedi ei gyfyngu i buteindai oddi ar y stryd neu fflatiau ac mae rhai dioddefwyr yn cael eu gorfodi i weithio ar y stryd.

- **Llafur gorfodol** – ble gorfodir dioddefwyr i weithio oriau hir iawn a rhoi eu cyflogau i gyd i'w masnachwyr neu reolwyr. Defnyddir trais a bygythiadau yn erbyn dioddefwyr neu yn erbyn eu teuluoedd os nad ydynt yn cydymffurfio. Weithiau fe wneir bygythiadau i ddatgelu'r gweithiwr i'r awdurdodau, er enghraifft, oherwydd statws mewnfudo'r gweithiwr, neu fe gymerir eu pasbortau oddi arnynt. Mae nifer o ddioddefwyr hefyd yn gaeth oherwydd dyled.

- **Caethwasanaeth Domestig** – dioddefwyr sy'n byw a gweithio mewn cartrefi ble y'u gorfodir i weithio gyda bygythiadau o niwed difrifol ac ymosodiadau corfforol a rhywiol. Yn aml mae cyfyngiad ar ryddid a symudiadau ac ni all dioddefwyr adael eu llety. Yn y bôn mae'n fath o gaethwasanaeth ac mae'n rhaid i ddioddefwyr fyw dan amgylchiadau anurddasol.

- **Galluogi eraill i gael mantais** - gall hyn gynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i arian o gymorth ariannol gan y wlad megis budd-dal plant neu fudd-dal diweithdra, ac mae wedi ei ddiffinio fel unrhyw fudd deilliadol gan y masnachwr megis elw, budd neu fraint bersonol. Yn aml bydd dioddefwyr yn cael eu twyllo neu eu gorfodi i helpu eu masnachwyr oherwydd eu bod yn ifanc neu'n anabl.

- **Cynaeafu organau** – ble mae dioddefwyr yn cael eu masnachu er mwyn gwerthu rhannu o'r cyrff a'u horganau i'w trawsblannu.

- **Plant** – mae plant ymysg y dioddefwyr mwyaf agored i niwed; weithiau fe'u gwerthir i lafur gorfodol neu waith domestig trwy gaethiwed dyled gan aelodau o'u teulu ble maent yn agored i gam-drin rhywiol neu gorfforol. Neu gall plant fod yn agored i gael eu defnyddio mewn mentrau troseddol, gweithio mewn ffermydd canabis neu gangiau pigo pocedi (lladrata). Mae nifer yn blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain sy'n dod yn ysglyfaeth i rai sy'n manteisio arnynt i alluogi eraill yma i sicrhau manteision. Gall plant Prydeinig hefyd fod yn agored i fasnachwyr sy'n camfanteisio arnynt a'u cam-drin trwy buteindra.

Ni ddylid drysu masnachu pobl gyda 'smyglo' pobl. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i'r Deyrnas Unedig yn anghyfreithlon wedi gwneud hynny naill ai ar eu pennau eu hunain neu wedi trefnu i gael eu smyglo i'r wlad. Mae'r adran nesaf yn esbonio rhai o'r gwahaniaethau.

Beth yw smyglo?

Tra nad oes gan ddioddefwyr sy'n cael eu masnachu fawr o ddewis o ran beth sy'n digwydd iddynt, a'i fod yn gyffredinol yn digwydd yn erbyn eu hewyllys neu dan ryw fath o esgus gau, yn gyffredinol bydd smyglo pobl yn digwydd gyda chaniatâd yr unigolyn sy'n cael ei smyglo. Mae rhesymau cyffredin pam bod unigolion yn ceisio cael eu smyglo yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth ac economaidd, neu i ddianc rhag erledigaeth neu wrthdaro. Wedi iddynt gael eu symud ar draws ffiniau rhyngwladol, mae'r berthynas gyda'r rhai sy'n cynorthwyo i'w smyglo yn dod i ben wedi iddynt gyrraedd eu cyrchfan. Mae smyglo yn drosedd sy'n cynnwys mynediad anghyfreithlon i wlad ble nad yw'r unigolyn yn wladolyn na'n breswylydd naill ai'n ddirgel neu trwy dwyll, megis defnyddio dogfennau twyllodrus.

Ffactorau sy'n helpu gwahaniaethau rhwng smyglo a masnachu yw:

- **Caniatâd** – mae smyglo yn weithred wirfoddol ac fel arfer ychydig iawn o orfodaeth/trais sy'n digwydd nac ei angen gan y rhai sy'n cynorthwyo yn y smyglo.

- **Camfanteisio** – nid oes unrhyw gamfanteisio gan y smyglwyr o'u dioddefwyr wedi iddynt gyrraedd eu cyrchfan, ac mae eu perthynas yn dod i ben ar gyrraedd eu cyrchfan; ar y llaw arall, mae dioddefwyr masnachu yn amodol i gylch o gamfanteisio.

- Mae **elw** ar gyfer smyglo yn deillio'n bennaf o gludo a hwyluso mynediad anghyfreithlon i wlad arall, tra bod masnachwyr yn elwa'n bennaf o gamfanteisio ar eu dioddefwyr.

Fodd bynnag, ar adegau mae'r gwahaniaeth rhwng unigolyn wedi ei smyglo ac unigolyn wedi ei fasnachu yn annelwig a gellir gweithredu'r ddau ddiffiniad yr un mor hawdd. Efallai y bydd y dioddefydd wedi cychwyn trwy gael ei smyglo i'r wlad, ond yn ystod ei daith neu wedi cyrraedd ei gyrchfan fe allai ddatblygu i neu ddod yn fasnachu.

Gall hyn ddigwydd os bydd rhywun wedi cychwyn eu taith tuag yma yn gyfranogwr parod, o bosibl yn teithio yma i weithio mewn swydd newydd. Fodd bynnag, naill ai yn ystod eu taith neu wedi cyrraedd, byddant yn agored i fasnachwyr fydd yn cymryd mantais ohonynt ac yn eu niweidio. Efallai y byddant yn amodol i gyflyrau anniogel yn ystod y daith i'w cyrchfan, yn amodol i gam-drin rhywiol neu gorfforol neu'n cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol yn ystod eu taith. Mae'n bwysig archwilio'r sefyllfa derfynol i bennu p'un a yw rhywun wedi ei smyglo neu ei fasnachu.

Rôl y CPS

Y CPS yw'r prif wasanaeth erlyn ar gyfer Cymru a Lloegr, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn arfer ei swyddogaethau'n annibynnol, yn amodol i oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith y gwasanaeth erlyn. Sefydlwyd y CPS yn 1986 i erlyn achosion a ymchwiliwyd gan yr heddlu, ac mewn rhai achosion gan swyddogion mewnfudo. Er ein bod yn gweithio'n agos â'r heddlu, rydym yn annibynnol ohonynt.

Nid y CPS yw'r unig awdurdod erlyn cyhoeddus; mae yna nifer o awdurdodau erlyn eraill ledled y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, wrth amharu ar yr ystod o weithgareddau troseddol sy'n gysylltiedig â masnachu mewn pobl, os nad yw'r heddlu'n gallu sicrhau tystiolaeth o droseddu, yna gellir defnyddio dulliau eraill o daclo gweithgaredd troseddol cyfundrefnol. Bydd y ddogfen bolisi hon yn esbonio rhai o'r dulliau y gellir eu defnyddio i gyflawni hyn.

Er bod y CPS yn un rhan o'r system gyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys eraill megis yr heddlu, y llysoedd a chyfreithwyr yr amddiffyn, mae natur fyd eang masnachu mewn pobl yn golygu ein bod yn aml yn gweithio ar y cyd â nifer ehangach o asiantaethau domestig a rhyngwladol. Wrth ymateb i fasnachu mewn pobl, daw'n gwaith â ni i gysylltiad rheolaidd ag asiantaethau anllywodraethol.

Mae pob achos o fasnachu mewn pobl yn ddifrifol, cymhleth ac yn galw am driniaeth sensitif. Maent fwyaf tebygol o gael eu herlyn gan erlynwyr arbenigol sydd â phrofiad, arbenigedd a hyfforddiant i ddelio â nhw.

Yr heddlu a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) yw'r prif asiantaethau sy'n gyfrifol am ymchwilio achosion o fasnachu mewn pobl ac am

gasglu'r dystiolaeth. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweithio'n agos ag asiantaethau eraill megis Asiantaeth Ffiniau'r DU, Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU a'r Tîm Unigolion Agored i Niwed i adeiladu achosion cryf. Mae gennym gyfrifoldeb dros benderfynu yn yr achosion mwyaf difrifol a chymhleth, p'un a ddylid cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir o drosedd ac, os felly, o ba gyhuddiad neu gyhuddiadau. Nid yw'r heddlu'n cyfeirio pob cwyn am drosedd atom. Fodd bynnag, os fydd gan yr heddlu amheuaeth resymol bod y sawl a ddrwgdybir wedi cyflawni trosedd yn gysylltiedig â masnachu mewn pobl, rhaid iddynt gyfeirio'r achos hwnnw at Erlynydd y Goron, a fydd yn gwneud y penderfyniad ar p'un ai erlyn neu beidio.

Bydd ymgynghori cynnar yn cychwyn rhwng yr erlynydd a'r heddlu neu swyddog SOCA i sicrhau yr archwilir pob llwybr posibl o dystiolaeth ac y canfyddir y cyhuddiad neu gyhuddiadau cywir. Ble bynnag fo'n bosibl, rydym yn bwriadu i'r un erlynydd fod yn gyfrifol am yr achos o'r dechrau i'r diwedd a bydd yn gweithio'n agos gyda'r ymchwilydd ar bob cam. Mae'r elfen hon o barhad yn bwysig i wella ansawdd yr erlyniad.

Bydd erlynwyr hefyd yn gweithio'n agos ag ymchwilwyr ariannol i fynd ar drywydd asedau ariannol masnachwyr. Bydd erlynwyr yn gwneud cais am orchmynion i atal ac atafaelu unrhyw asedau ac eiddo y daw'r ymchwilwyr o hyd iddynt.

Er ein bod yn ystyried barn dioddefwyr parthed pa effaith a gafodd y drosedd arnynt, nid ydym yn gweithredu ar ran dioddefwyr na'u teuluoedd yn y r un modd ag y mae cyfreithwyr yn gweithredu ar ran eu cleientiaid, a rhaid i erlynwyr ffurfio barn gyffredinol o les y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ar achosion.

Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

Mae'r **Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron** (Y Côd) yn cyflwyno sut ydym yn gwneud penderfyniadau ar p'un ai i erlyn neu beidio. Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Rydym yn adolygu'r achosion a gyfeiriwyd atom gan yr heddlu yn unol â'r prawf a sefydlir yn y Côd. Fe'i gelwir yn Brawf Côd Llawn ac mae dau gam iddi.

Y cam tystiolaethol

Rhaid i ni yn gyntaf fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Golyga hyn bod rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando ar achos ar ei ben ei hun, a

dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol ac yn gweithredu'n unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig.

Mae'r safon a ddefnyddiwn i benderfynu p'un ai i erlyn neu beidio yn wahanol i'r un a weithredir gan y llys cyn y gall ddyfarnu amddiffynnydd yn euog. Er mwyn cael euogfarn, rhaid i ni brofi'r achos fel bod y llys yn sicr o euogrwydd y diffynnydd.

Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid peidio â bwrw ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol yw'r achos.

Y cam lles y cyhoedd

Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i ni benderfynu os oes angen erlyniad er lles y cyhoedd. Bydd erlyniad fel arfer yn digwydd oni bai fod "yr erlynydd yn sicr fod yna ddigon o ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn sy'n drech na'r rhai o blaid" (Y Côd, paragraff 4.16). Os pasir y cam tystiolaethol, yna mae bron yn sicr y bydd angen erlyniad er lles y cyhoedd oherwydd natur a difrifoldeb yr achosion hyn.

Yn unol â'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron, bydd pob achos yn cael ei adolygu gan ystyried nifer o ffactorau lles y cyhoedd a fydd yn aml yn bresennol mewn achosion o fasnachu mewn pobl. Ymhlith y rhain mae:

- y trais neu fygythiad o drais a ddefnyddiwyd ar ddioddefwyr;
- y cyflawnwyd y drosedd gan grŵp;
- bod y dioddefydd mewn sefyllfa fregus ac i'r sawl a ddrwgdybir gymryd mantais o hyn;
- bydd euogfarn yn debygol o arwain at ddedfryd sylweddol;
- byddai erlyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol o ran cynnal hyder y gymuned;
- os oedd y drosedd yn rhagfwriadol;
- os oedd gwahaniaeth amlwg yn lefelau dealltwriaeth y sawl a ddrwgdybir a'r dioddefydd ac i'r sawl a ddrwgdybir gymryd mantais o hyn.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i erlynwyr hefyd ystyried ffactorau lles y cyhoedd allai dueddu yn erbyn erlyniad. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys y ffaith bod erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefydd, gan gadw difrifoldeb y drosedd a barn y dioddefydd am effaith erlyniad ar ei iechyd corfforol neu feddyliol ef neu hi mewn cof ar bob adeg.

Wrth benderfynu p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried "unrhyw farn a fynegwyd gan y dioddefydd parthed effaith y drosedd arnynt. Mewn achosion priodol, er enghraifft, os yw'r dioddefydd yn blentyn neu oedolyn analluog yn ôl diffiniad y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegir gan deulu'r dioddefydd" (Y Côd,

paragraff 4.18). Fodd bynnag, yn aml nid yw dioddefwyr camfanteisio yn aml yn cydnabod yn eu bod yn ddioddefwyr, neu efallai y byddant dan fygythiad; dylid ystyried hyn wrth wrando ar farn a fynegwyd gan ddioddefydd/teulu dioddefydd.

Rydym yn meddwl yn ofalus am fuddiannau'r dioddefydd wrth benderfynu ar les y cyhoedd ar bob adeg. Fodd bynnag, rydym yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid yn unig er budd unrhyw unigolyn penodol. Gall fod yn anodd sicrhau cydbwysedd yn hyn o beth. Mae barn a buddiannau'r dioddefydd yn bwysig, ond rhaid i erlynwyr ffurfio barn gyffredinol ar les y cyhoedd wrth benderfynu ar erlyniad.

Ble fo gan erlynwyr gyfrifoldeb i esbonio eu penderfyniad i'r dioddefydd, er enghraifft, pan fyddant yn atal achos neu'n addasu'r cyhuddiad yn sylweddol, rhaid iddynt gydymffurfio â'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau a holl Ganllawiau perthnasol y CPS. Gweler yr adran **Rhoi gwybod i ddioddefwyr**.

Y Prawf Trothwy

Bydd Erlynwyr y Goron yn gweithredu'r Prawf Côd Llawn ble bynnag fo'n bosibl. Fodd bynnag, ar adegau bydd achosion ble mae erlynwyr yn gweithredu'r Prawf Trothwy er mwyn gwneud penderfyniad ar erlyn. Gallai hyn godi ble nad oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i weithredu cam tystiolaethol y Prawf Côd Llawn a bod yr unigolyn a arestiwyd yn cyflwyno risg mechnïaeth sylweddol o'i ryddhau.

Mae ystyr llawn y Prawf Trothwy a'r amgylchiadau ble gellid ei weithredu wedi eu cyflwyno'n llawn yn Y Côd yn Adran 5.

Deddfwriaeth

Mae'r adran hon yn amlinellu'r brif ddeddfwriaeth droseddol sy'n berthnasol i fasnachu mewn pobl. Ceir gwybodaeth fanylach ar y troseddau a'u nodweddion yn **Atodiad A: Deddfwriaeth**.

Deddf Troseddau Rhyw 2003

Mae Adrannau 57, 58 a 59 yn creu tair trosedd o fasnachu i'r diben o gamfanteisio rhywiol. Mae'r troseddau'n cwmpasu masnachu unigolyn arall i'r Deyrnas Unedig (adran 57), masnachu yn y Deyrnas Unedig (adran 58) a masnachu allan o'r Deyrnas Unedig (adran 59) gyda'r bwriad o gyflawni trosedd ryw berthnasol ar yr unigolyn hwnnw. Mae trosedd ryw berthnasol yn unrhyw drosedd dan Ran 1 y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 sy'n cynnwys trais, puteindra a chamdriniaeth rywiol. Mae'r troseddau hyn yr un mor berthnasol i ddynion a menywod. Mae hefyd yn cynnwys pob trosedd ryw yn ymwneud â phlant a drafodir yn fanylach yn yr adran **Dioddefwyr sy'n Blant**.

Deddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth o Hawlwyr) 2004

Mae adran 4 yn creu troseddau o fasnachu unigolyn arall i mewn i, o fewn ac allan o'r Deyrnas Unedig ar gyfer camfanteisio nad yw'n rhywiol. Mae hyn yn cynnwys caethwasanaeth domestig neu lafur gorfodol, rhoi organau dynol neu orfodi neu alluogi unigolyn arall i fanteisio. Gall hyn olygu budd-dal y wladwriaeth, er enghraifft budd-dal plant, neu unrhyw fantais i'r masnachwr, allai gynnwys enillion ariannol neu elw.

Deddf Mewnfudo 1971

Mae adran 25 yn creu trosedd o gynorthwyo mewnfudo anghyfreithlon i aelod wladwriaeth (a elwir yn 'hwyluso'). Mae'n torri deddf mewnfudo gan unrhyw ddinesydd nad yw o'r UE (yn cynnwys torri deddf mewnfudo Aelod Wladwriaeth arall). Byddwn yn defnyddio'r drosedd hon pan fydd rhywun wedi ei smyglo i'r Deyrnas Unedig, neu os na allwn brofi natur y camfanteisio (er enghraifft, mewn achosion o ymchwiliadau rhagweithiol ble nad yw dioddefwr wedi dioddef o gamfanteisio hyd yn hyn) neu os bydd rhywun wedi ei fasnachu i'r Deyrnas Unedig cyn 2004 pan ddaeth masnachu mewn pobl i rym.

Mae'r troseddau hyn i gyd yn cwmpasu gweithredoedd troseddol a gyflwynwyd yn y Deyrnas Unedig, ni waeth beth yw cenedligrwydd y diffynnydd, yn ogystal â throseddau a gyflawnwyd dramor. Mae hyn yn golygu os bydd rhywun sy'n preswylio mewn gwlad arall yn trefnu i recriwtio neu gludo dioddefwr i'r Deyrnas Unedig ac yn gwybod y camfanteisir arnynt yma, gallwn erlyn yr unigolyn hwnnw am droseddau masnachu neu smyglo.

Gellir erlyn y troseddau uchod naill ai mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Fodd bynnag, mae'n ganllaw i erlynwyr yn eu cynghori bod y troseddau hyn mor ddifrifol fel eu bod yn debygol o arwain at ddedfryd sylweddol os ceir euogfarn ac felly dylid eu herlyn yn Llys y Goron. Ar dderbyn euogfarn yn Llys y Goron, gellir dedfrydu'r diffynnydd i gosb uchaf o 14 mlynedd o garchar ar gyfer pob trosedd.

Mae'r troseddau oll yn 'droseddau ffordd o fyw' i ddibenion Deddf Elw Troseddau 2002. Golyga hyn y gall y llys dybio bod yr holl asedau mae'r diffynnydd wedi caffael yn ystod y 6 mlynedd diwethaf o ganlyniad i droseddu, oni bai y gall y diffynnydd brofi fel arall. Mae hyn yn ein galluogi i atafaelu arian y diffynnydd.

Mae deddfwriaeth hefyd yn ein galluogi i erlyn y rhai sy'n:

- ceisio cyflawni trosedd masnachu;
- cymryd rhan fel cyd-droseddwr mewn trosedd masnachu; neu
- trefnu neu gyfeirio eraill i gyflawni trosedd masnachu

Cyflwynir y ddeddfwriaeth berthnasol yn **Atodiad A: Deddfwriaeth**.

Deddfwriaeth arall y gallwn ddefnyddio

Bydd erlynwyr yn ymwybodol wrth ddelio ag achos o fasnachu mewn pobl ei bod yn bosibl nad yw'r dioddefydd yn ddioddefydd masnachu yn unig. Efallai y bydd dioddefwyr wedi dioddef o droseddau eraill a gyflawnwyd yn ystod gwahanol gamau eu taith a hefyd wrth fanteisio arnynt. Er enghraifft, efallai y bydd dioddefydd camfanteisio rhywiol hefyd wedi ei dreisio neu ei threisio a'i fygwth neu ei bygwth gan y masnachwr dros gyfnod o amser. Neu efallai y bydd dioddefydd llafur gorfodol wedi ei garcharu neu ei charcharu ar gam, ymosod arno ef neu hi a'i fygwth neu ei bygwth â thrais neu farwolaeth. Yn aml fe wneir hyn fel modd o ennill a chynnal rheolaeth dros y dioddefydd.

Bydd erlynwyr hefyd yn ystyried cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir ag ystod o droseddau eraill. Gall y troseddau hyn fod yn atodol i gyhuddiadau o fasnachu mewn pobl os yw'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr heddlu yn eu cefnogi ac yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos. Rhaid i'r dewis o droseddau adlewyrchu ehangder y troseddolrwydd yn llawn a galluogi'r llys i ddedfrydu'n unol â hynny.

Ceir esboniad manylach o sut fyddwn yn penderfynu p'un ai i gyhuddo a pha droseddau i'w cyhuddo yn yr adran **Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron**.

Yn ddibynnol ar ffeithiau'r achos, gall yr erlynydd ystyried y troseddau difrifol eraill canlynol:

- Trais;
- Talu am wasanaethau rhywiol gan blentyn;
- Achosi, rheoli neu drefnu puteindra neu bornograffi plant;
- Cam-garcharu;
- Herwgipio;
- Cipio;
- Bygythiadau i ladd;
- Lladrata;
- Ymosodiadau;
- Achosi niwed corfforol difrifol;
- Meddiant o ddogfennau adnabod gau;
- Meddiant o ddogfennau adnabod wedi eu dwyn;
- Troseddau eraill yn ymwneud â thwyll Hunaniaeth;
- Troseddau Twyll eraill;
- Ffugiad;
- Twyll;
- Gwyngalchu Arian;
- Rheoli eiddo puteindy;
- Talu am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i rym neu gamfanteisio;
- Cadw rhywun mewn caethwasanaeth neu gaethiwed;
- Achosi neu annog puteindra er elw, ac ati;
- Dychryn tystion.

Grymoedd ariannol

Yn ogystal ag erlyn y masnachwyr ac eraill sy'n sicrhau enillion ariannol trwy gamfanteisio ar eu dioddefwyr, gallwn hefyd amharu ar eu gweithgaredd trwy fynd â'u hasedau oddi arnynt. Mae'r canlynol yn droseddau a grymoedd sy'n galluogi erlynwyr a'r heddlu i wneud hyn:

- Adfer asedau dan y Ddeddf Elw Troseddau 2002 i ddal a chymryd asedau oddi ar ddiffynnydd yn dilyn euogfarn. Ar gyfer troseddau masnachu mewn pobl a smyglo, gall y llys dybio bod yr holl asedau mae'r unigolyn wedi caffael yn ystod y 6 mlynedd diwethaf yn deillio o droseddu a rhaid i'r diffynnydd brofi fel arall.

- Gwyngalchu arian sy'n creu tair trosedd dan y Ddeddf Elw Troseddau nad oes rhaid iddynt gynnwys unrhyw arian o gwbl; eu hanfod yw symud a defnyddio 'eiddo troseddol' yn hytrach nag arian.

- Fforffediad sy'n cynnwys atafael eitemau a ddefnyddiwyd i gyflawni trosedd. Ar gyfer masnachu mewn pobl mae hyn yn cynnwys y grym i atafaelu a fforffedu cerbydau tir, llongau ac awyrennau allai fod wedi eu defnyddio i fasnachu pobl.

- Atafaelu dan y Ddeddf Elw Troseddau, sy'n rym sifil ac yn galluogi'r heddlu i atafaelu arian os yw'r swm dros £1,000 ble mae ganddynt achos rhesymol dros gredu ei fod yn deillio o drosedd neu wedi ei fwriadu i'w ddefnyddio i hyrwyddo trosedd.

- Atal a rhewi asedau dan y Ddeddf Elw Troseddau yn ystod cam cynnar o'r ymchwiliad.

Mae cytundeb rhwng yr heddlu a'r CPS yn egluro rolau a chyfrifoldebau'r heddlu ac erlynwyr ac yn sefydlu'r trefniadau gweithredol ar gyfer y grymoedd hyn. Fodd bynnag, bydd erlynwyr yn darparu cyngor cynnar i'r heddlu ar yr ymchwiliad ar bob adeg, gwarchod asedau, caffael a gorfodi gorchmynion atafaeliad a materion atafaelu'n gyffredinol ac yn gwneud ceisiadau ataliad ac atafaelu i Lys y Goron ar ran yr heddlu.

Creu achos yr erlyniad

Mae erlynwyr yn adeiladwyr achos sy'n gweithio gydag ymchwilwyr i adeiladu achosion cryf i'w cyflwyno i'r llys. Mewn achosion o fasnachu mewn pobl, mae erlynwyr yn aml yn cymryd rhan cyn cyhuddo i gynghori ar linellau ymholiad a gofynion tystiolaethol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod ymchwiliadau fel arfer yn ymestyn i awdurdodaethau eraill, ac yn aml angen casglu tystiolaeth o dramor.

Sut fyddwn yn adeiladu achos yr erlyniad

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn fewnol ac yn y gwledydd y masnachwyd y dioddefydd ohonynt ac ar draws i sicrhau y cesglir yr holl dystiolaeth sydd ar gael gan bob ffynhonnell i brofi'r achos. Mae erlynwyr yn defnyddio nifer o ffynonellau o fewn yr UE i helpu hwyluso ymchwiliad a chasglu tystiolaeth, ac mae gennym ynadon cyswllt CPS mewn nifer o leoliadau.

Ar adegau mae gofyn i erlynwyr y CPS deithio i wledydd eraill i weithio gydag erlynwyr sydd â chyfrifoldeb ymchwilio i gasglu tystiolaeth o dramor. Bydd casglu tystiolaeth yn cael ei gyfeirio trwy erlynydd yr awdurdodaeth honno. Mewn ambell achos, byddwn yn cydweithio gyda nhw er mwyn erlyn masnachwyr yn yr awdurdodaeth fwyaf priodol. Gallai hynny olygu yr erlynir masnachwyr mewn gwlad arall, er mai yma yn camfanteisiwyd ar y dioddefwyr. Pan fydd hynny'n digwydd, byddwn yn gweithio gydag ymchwilwyr ac erlynwyr yn y wlad honno i helpu darparu tystiolaeth i'r achos. Bydd y sefydliad Eurojust yn cynorthwyo yn yr achosion hyn gan ddod â'r holl asiantaethau perthnasol ynghyd.

Pan na ellir defnyddio ymholiadau rhwng un heddlu a'r llall i gasglu tystiolaeth o dramor, rhaid gwneud cais ffurfiol am gymorth o dramor trwy lythyr cais, sy'n ddogfen gyfreithiol. Bydd yr erlynydd yn paratoi llythyrau cais ac yn eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl yn yr ymchwiliad. Wedi derbyn y dystiolaeth, rhaid ei arolygu i sicrhau ei fod ar ffurf sy'n dderbyniadwy ac yn ddibynadwy i gefnogi'r achos a'i gyflwyno mewn llys barn yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r broses arolygu yn broses barhaus a rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw newid yn yr amgylchiadau. Pryd bynnag fydd tystiolaeth neu wybodaeth yn cael ei chyfeirio at yr erlynydd, mae'n cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn gywir i fynd ymlaen â'r erlyniad. Tra bod y CPS a'r heddlu'n cydweithio'n agos â'i gilydd, yr erlynydd sy'n gyfrifol am y penderfyniad p'un ai i erlyn, o ba drosedd a ddylid cyhuddo neu p'un a ddylai achos fynd yn ei flaen.

Rôl dioddefwyr a thystion

Fel gyda phob achos, mae'r CPS yn cydnabod rôl ganolog dioddefwyr a thystion o ran cyflawni erlyniadau llwyddiannus. Mae disgrifiad y dioddefydd yn y llys neu ddatganiad i'r heddlu o beth ddigwyddodd iddynt yn dystiolaeth ac yn bwysig i'r achos o ran profi pob elfen o'r drosedd o fasnachu. Fe wyddom y bydd angen cymorth arbenigol ar y dioddefydd mewn achosion o fasnachu mewn pobl. Bydd erlynwyr yn ystyried beth yw'r modd gorau o'u cefnogi i roi tystiolaeth o ganlyniad i berthynas sy'n aml yn agos a rheolaethol rhwng y diffynnydd a'r dioddefydd a'r tebygolrwydd cynyddol o frawychu'r dioddefydd. Ond rydym hefyd yn cydnabod y gall dioddefwyr wedi eu masnachu fod yn amharod i gefnogi achosion troseddol ar adegau, efallai eu bod yn ofnus neu efallai nad ydynt am ddod i'r llys. Os ydym yn amau bod y dioddefydd wedi ei fygwth neu ei ddychryn i beidio rhoi tystiolaeth, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Efallai y bydd yr ymchwiliad yn datgelu troseddau newydd, megis aflonyddu neu ddychryn tystion. Os oes angen, byddwn yn gofyn i'r llys oedi unrhyw wrandawiad er mwyn gallu cynnal ymchwiliad trylwyr cyn i ni benderfynu ynglŷn â dyfodol yr achos.

Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n penderfynu rhoi tystiolaeth, mae amddiffyniad a chymorth arbenigol ar gael gan yr heddlu a sefydliadau cefnogaeth eraill. Mae yna hefyd fesurau y gallwn wneud cais amdanynt i ddiogelu dioddefwyr a thystion sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys. Fe'u trafodir yn fanylach yn yr adran **Dioddefwyr a Thystion**.

Beth os nad yw'r dioddefydd eisiau rhoi tystiolaeth?

Os bydd dioddefwyr a fasnachir yn penderfynu peidio rhoi tystiolaeth, bydd yn dal yn bosibl i ni gyhuddo ac erlyn troseddwyr. Bydd tystiolaeth ategol neu gefnogol arall a ddisgrifir isod yn cynorthwyo i brofi achos. Gall hyn fod yn bosibl dan yr amgylchiadau canlynol:

- Ble mae'r dioddefydd wedi gwneud cwyn neu roi datganiad i'r heddlu ond nad yw am roi tystiolaeth, byddwn yn ystyried p'un a yw'n dal yn bosibl i barhau heb dystiolaeth y dioddefydd. Mewn achosion cyfyngedig iawn, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio datganiad y dioddefydd yn y llys heb alw ar y dioddefydd i roi tystiolaeth lafar, er enghraifft, os yw'r dioddefydd yn ofnus. Gelwir hyn yn dystiolaeth ail-law ond mae'n fater i'r llys benderfynu arno. Os oes digon o dystiolaeth ategol arall, hynny yw, tystiolaeth sy'n cefnogi neu gadarnhau stori'r dioddefydd, megis rhywun sy'n gallu rhoi tystiolaeth uniongyrchol o'r hyn a welsant neu a glywsant, neu dystiolaeth feddygol a gwyddonol sy'n cysylltu'r dioddefydd i'r sawl a amheuir, yna fe all fod yn bosibl erlyn.

- Ble nad yw'r dioddefydd yn gwneud cwyn na'n rhoi adroddiad i'r heddlu. Cyn belled â bod tystiolaeth sy'n profi pob elfen o'r drosedd heb fod angen i'r dioddefydd wneud cwyn, gallwn fynd ymlaen ag erlyniad am fasnachu mewn pobl. Er enghraifft, ble mae tystiolaeth gwyliadwriaeth gan yr heddlu yn dangos y sawl a ddrwgdybir yn cludo dioddefydd, manylion cofrestru cerbyd sy'n cysylltu'r sawl a ddrwgdybir i'r car a'r eiddo ble mae'n bosibl y digwyddodd y camfanteisio ar y dioddefydd, ynghyd ag adfer arddangosiadau megis pasbortau ffug, negeseuon testun ffôn symudol neu adfer symiau mawr o arian.

- Efallai y bydd yr erlynydd yn ystyried troseddau eraill y gellir eu harddangos heb dystiolaeth y dioddefydd, megis smyglo, gwyngalchu arian, troseddau dogfennau ffug neu gau, achosi neu ysgogi puteindra er elw.

Tystiolaeth arall i erlyn

Wrth ymchwilio achos o fasnachu mewn pobl, bydd yr heddlu yn chwilio am dystiolaeth gadarnhaol neu ategol megis tystiolaeth feddygol neu wyddonol, tystiolaeth camera cylch cyfyng, neu lygad dystion i ddigwyddiadau. Bydd tystiolaeth arall fydd yr heddlu'n sicrhau i brofi'r drosedd yn cynnwys y canlynol:

- **Y sawl a ddrwgdybir**. Mae sicrhau deunydd cyfeirio gan y sawl a ddrwgdybir yn hollbwysig. Os yw dogfennaeth adnabod yn broblem, gellir tynnu lluniau ac os disgrifir nodweddion corfforol, tatŵs neu eitemau gemwaith yn natganiadau'r dioddefydd neu'r tyst, tynnir lluniau ohonynt i gefnogi datganiadau'r dioddefydd. Hefyd archwiliadau fforensig yn cynnwys olion bysedd a DNA.

- **Tystiolaeth fforensig** ar gyfer cysylltiadau rhwng safleoedd. Gall fod yn bosibl cysylltu, er enghraifft, cerbydau i eiddo, y sawl a ddrwgdybir a dioddefwyr trwy ddefnyddio olion bysedd, DNA neu arddangosiadau olion cyswllt, hyn yn oed ble na chofnodir y sawl a ddrwgdybir. Gall delweddu trwy luniau arferol gyda fideo a thechnegau delweddu eraill i'w cefnogi gadarnhau nodweddion a nodwyd yn natganiadau dioddefwyr.
- **Eiddo.** Archwiliad o gamerâu cylch cyfyng safleoedd a defnyddio olion bysedd a DNA i gysylltu'r sawl a ddrwgdybir a dioddefwyr ag eiddo. Gallai chwiliadau o eiddo i adfer tystiolaeth gynnwys dogfennau personol, pasbortau, dogfennau teithio, papurau teuluol a dogfennau yn ymwneud â gwledydd cartref dioddefydd a dioddefydd posibl, ffonau symudol, dogfennaeth ariannol, dogfennau cerbyd, dogfennau'n manylu ar gysylltiadau.

- **Cerbydau** y gellid fod wedi eu defnyddio i gludo a symud dioddefwyr. Gellir defnyddio DNA i adnabod unigolion gyda mynediad at gerbydau ac olion bysedd.

- **Dogfennau**. Gall adfer dogfennau arferol yn ystod chwiliadau fod yn werthfawr iawn i brofi natur fasnachol troseddau masnachu mewn pobl. Mae Offer TG a chyfathrebu yn cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer adfer tystiolaeth. Mewn achosion o gynhyrchu dogfennau gau, gall fod yn bosibl nodi prosesau ac unigolion. Gall lawrlwytho data ffonau symudol hefyd gadarnhau cysylltiadau, dyddiadau ac amserau.

Dioddefwyr a Thystion

Mae gennym ddyletswydd i ddarparu dioddefwyr a thystion ag amddiffyniad a chefnogaeth briodol i sicrhau eu diogelwch ac i wella eu gallu i roi eu tystiolaeth orau posibl. Er y bydd profiadau dioddefwyr masnachu mewn pobl yn amrywio, mae'n bwysig adnabod effaith ddifrifol y troseddau hyn ar yr unigolyn. Efallai y bydd gan ddioddefwyr ystod o broblemau iechyd, iechyd rhywiol, emosiynol ac/neu iechyd meddwl. Dylai lles y dioddefydd fod yn flaenoriaeth; dyma pam y bydd angen cefnogaeth arbenigol megis yr hyn a ddarperir gan y Prosiect POPPY.

Mae'n bosibl y bydd rhywun yn cael ei ystyried yn ddioddefydd masnachu p'un a yw'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd yn cael ei adnabod, ei ddal, ei erlyn neu ei euogfarnu ac ni waeth beth yw'r berthynas deuluol rhwng y sawl sy'n cyflawni'r drosedd a'r dioddefydd.

Mae colli rhyddid yn nodwedd ddiffiniol o fasnachu. Er enghraifft, yn aml ni fydd dioddefwyr a fasnachir yn cael gadael yr eiddo ble'u cedwir, neu os ydynt, bydd masnachwr yn mynd gyda nhw. Mae dioddefwyr yn dioddef camdriniaeth gyson a chaled, yn gorfforol a seicolegol. Mae trais a niwed corfforol yn arbennig o gyffredin i fenywod wedi eu masnachu. Ond fe wyddom y gall dioddefwyr hefyd ddioddef mathau 'ysgafnach' o orfodaeth; ni chyfyngir cymaint ar eu rhyddid, rhoddir rhywfaint o 'dâl' iddynt o'u henillion, gellir eu twyllo i feddwl eu bod yn dod yma am fywyd gwell.

Gall pobl ifanc a phlant sy'n byw yn y Deyrnas Unedig hefyd fod yn dargedau ar gyfer masnachwyr mewn pobl a dioddef o gamfanteisio rhywiol. I rai, bydd y berthynas rywiol ymosodol hon yn cychwyn a gorffen gyda'u 'cariad' yn camfanteisio ohonynt; ond yn amlach bydd yn arwain at orfodaeth i weithgaredd rhywiol gyda grŵp ehangach o bobl yn cam-drin. Efallai y bydd rhai'n cael eu symud o dŷ i dŷ, dinas i ddinas – eu masnachu o fewn y Deyrnas Unedig – a bydd rhai'n cael eu 'gwerthu' yn fasnachol gan y sawl sy'n eu cam-drin. Gweler yr adran **Plant sy'n Ddioddefwyr**.

Fe wyddom fod dioddefwyr yn aml yn wynebu rhwystrau i ddod ymlaen a rhoi tystiolaeth. Nid ydynt yn dymuno cydweithio gyda'r awdurdodau ar bob adeg, ac weithiau ni allant wneud. Yn aml maent yn pryderu am oblygiadau rhoi tystiolaeth yn erbyn eu masnachwyr, oherwydd y bygythiad o beth allai ddigwydd iddynt neu i'w teuluoedd. Efallai y byddant hefyd yn amheus o'r awdurdodau – gall awdurdodau yn eu gwledydd brodorol fod yn llwgr neu hyd yn oed fod yn gyfrifol am eu masnachu eto.

Dylai erlynwyr hefyd gydnabod yr amrywiaeth o ddioddefwyr; heb os mae profiadau dioddefwyr o fasnachu yn wahanol i'w gilydd ac maent wedi eu heffeithio gan eu hethnigrwydd, oed, statws mewnfudo, crefydd a diwylliant. Rhaid asesu diogelwch ac anghenion pob dioddefydd ar sail unigol.

Y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol

Mae gwelliannau i adnabod dioddefwyr a'u cyfeirio trwy Fecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol i gefnogaeth ac amddiffyn priodol wedi helpu eu hadferiad o sefyllfaoedd o ymwela. Mae Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl, a weithredwyd ar 1 Ebrill 2009 i atal a threchu masnachu mewn pobl, yn creu mecanwaith i nodi a diogelu dioddefwyr masnachu ac i ddiogelu eu hawliau. Fe greodd ddarpariaethau i gefnogi'r dioddefwyr trwy gyfnod adferiad a myfyrio o 40 niwrnod ar gyfer unrhyw ddioddefwyr a nodwyd a chaniatâd preswylio adnewyddadwy un flwyddyn dan amgylchiadau ble fyddant yn cynorthwyo'r awdurdodau neu'n cefnogi achosion troseddol.

Ar gyfer dioddefwyr masnachu, mae hyn yn golygu y gall ymatebwr cyntaf sy'n dod ar eu traws eu cyfeirio naill ai at Ganolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig neu Asiantaeth Ffiniau'r DU i gael mynediad at y darpariaethau hyn. Fe ystyrir achos y dioddefydd posibl ac, os y'i cymeradwyir, rhoddir cyfnod myfyrio o 45 niwrnod i'r dioddefydd ble mae ganddynt hawl i ystod o wasanaethau cefnogaeth, ac ni fyddant yn cael eu symud o'r Deyrnas Unedig. Darperir llety a chefnogaeth trwy'r Prosiect POPPY (i ddioddefwyr camfanteisio rhywiol) a'r Llinell Gymorth Ymfudwyr (i ddioddefwyr camfanteisio llafur). Mae nifer o unigolion hefyd yn cael llety gan ddarparwyr cymorth trydydd sector elusennol.

Ar ddiwedd y cyfnod o fyfyrio, fe wneir penderfyniad terfynol ac os nad oes gan y dioddefydd hawl i aros yn y Deyrnas Unedig, fe'i hystyrir ar gyfer caniatâd preswylio yn seiliedig ar p'un a fydd y dioddefydd yn cefnogi achos troseddol, neu p'un a yw eu hamgylchiadau personol yn cyfiawnhau dyrannu hawl i aros yn y Deyrnas unedig.

Dylid nodi y gellir datgelu'r ffurflen gyfeirio a gwblhawyd gan yr ymatebwr cyntaf yn cofnodi eu cyfarfyddiad â'r dioddefydd i'r amddiffyn dan rai amgylchiadau, gan y gallai gwybodaeth ar y ffurflen gyfrannu tuag at hygrededd y dioddefydd neu dystion eraill i'r erlyniad.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach ar y darpariaethau hyn yn y "Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl".

Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Ers Ebrill 2006, cafodd dioddefwyr hawliau cyfreithiol penodol dan y "Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau" i dderbyn lefelau penodol o wasanaeth gan heddluoedd, y CPS a gan asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Mae'r Côd Ymarfer yn berthnasol i unrhyw un sydd wedi gwneud cyhuddiad, neu y mae rhywun wedi gwneud cyhuddiad ar eu rhan, o drosedd sydd o fewn y Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol. Nid oes gwahaniaeth p'un a yw'r

troseddwr wedi ei arestio neu ei gyhuddo neu beidio. Mae'r Côd yn cynrychioli lefel isafswm o wasanaeth yng Nghymru a Lloegr i'w ddarparu i ddioddefwyr gan ystod eang o sefydliadau.

Mae gan y CPS yr oblygiadau canlynol:

- I sicrhau fod dioddefwyr yn cael eu hysbysu o benderfyniadau cyhuddo. Os penderfynir nad oes digon o dystiolaeth i gychwyn achos, byddwn yn hysbysu'r dioddefydd o hyn o fewn un diwrnod gwaith.
- Os penderfynir addasu cyhuddiad yn arwyddocaol neu roi'r gorau iddo, rhaid i'r CPS hysbysu'r dioddefydd o fewn un diwrnod gwaith.
- Mewn achosion yn ymwneud â cham-drin plant, rhaid i'r erlynydd gynnig cyfarfod â'r dioddefwyr i esbonio penderfyniad yr erlyniad i beidio cychwyn achos parthed ymddygiad troseddol. Mae hyn hefyd yn berthnasol ble gwneir penderfyniad i ollwng neu addasu cyhuddiadau'n sylweddol. Gweler hefyd yr adran **Hysbysu dioddefwyr**.
- Ble nodir y gallai dioddefydd fod yn agored i niwed neu y gellir ei ddychrynu, rhaid i'r CPS ystyried gwneud cais i'r llys am gyfarwyddyd mesurau arbennig. Rhaid cofnodi deilliant yr ystyriaeth honno.
- Dylai cynrychiolwyr y CPS gyflwyno eu hunain i ddioddefwyr yn y llys, ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y dioddefwyr ynglŷn â'r achos llys a rhoi awgrym o faint fydd rhaid iddynt aros cyn cyflwyno tystiolaeth.
- Os bydd oediadau mewn achosion troseddol, rhaid i'r CPS, ble bynnag fo'n bosibl, esbonio'r rheswm dros oedi a dweud wrth y dioddefydd am faint y bydd yn debygol o orfod aros.
- Rhaid i'r CPS dalu costau y mae'r CPS wedi penderfynu sy'n ddyledus i'r dioddefydd yn ddim hwyrach na 10 niwrnod gwaith wedi derbyn ffurflen hawlio.
- Rhaid i'r CPS ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y dioddefydd ynglŷn â'r ddedfryd yn ei achos.
- Rhaid darparu'r Unedau Gofal Tystion â chopïau o'r Rhestr o Dystion i fynychu'r Llys cyn gynted ag y byddant wedi eu cwblhau i hysbysu dioddefwyr os oes angen iddynt gyflwyno tystiolaeth.
- Ymateb i geisiadau am wybodaeth gan yr Awdurdodau lawndal Anafiadau Troseddol neu'r Panel Apeliadau lawndal Anafiadau Troseddol yn ddim hwyrach na 60 niwrnod gwaith wedi'r diwrnod pan fydd y CPS yn derbyn y cais.

Ceir rhagor o wybodaeth ar oblygiadau i ddioddefwyr yn y "Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau".

Beth allwn ni wneud i helpu dioddefwyr a thystion yn y llys

Mae nodi tystion sy'n agored i niwed neu wedi'i ddychrynu yn gynnar gan yr heddlu a thrafodaeth gynnar gydag erlynydd y CPS yn hanfodol i gyflawniad yr achos. Yr heddlu sy'n bennaf gyfrifol am hysbysu'r erlynydd fod yr achos yn cynnwys tyst agored i niwed neu wedi'i ddychrynu. Ar ôl nodi bod y tyst yn agored i niwed neu wedi'i ddychrynu, gall yr heddlu gofnodi tystiolaeth gyntaf y dioddefydd i'w gyflwyno i'r llys. Ym mhob achos perthnasol, dylid trafod anghenion y tyst yn y cyfarfod gyda'r erlynydd i wella cynnydd yr achos ac i ddarparu lefel o sicrwydd i'r dioddefydd neu dyst.

Mesurau Arbennig

Wedi i ddioddefwyr wneud y penderfyniad i gefnogi erlyniad, mae yna nifer o fesurau y gall yr erlynydd ddefnyddio i'w cynorthwyo.

- Gall erlynwyr wneud cais i'r llys am ystod o fesurau i gefnogi ac amddiffyn dioddefwyr a fasnachwyd sy'n rhoi tystiolaeth yn erbyn y sawl sy'n troseddu yn eu herbyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod yn sylweddoli y gall dioddefwyr gymryd risgiau sylweddol wrth roi tystiolaeth. Fe elwir y rhain yn "Fesurau Arbennig" ac maent yn cynnwys:

    - cysgodi'r dioddefydd rhag y diffynnydd;
    - rhoi tystiolaeth trwy deledu cylch cyfyng;
    - clirio'r oriel gyhoeddus;
    - dan rai amgylchiadau, peidio datgelu pwy yw'r dioddefydd wrth roi tystiolaeth. Dim ond mewn achosion ble nad yw'r masnachwr yn gwybod pwy yw'r dioddefydd fyddai hyn yn briodol.

- Gallwn wneud cais am gyfyngiadau ar adrodd dan adran 46 y Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 i gyfyngu ar sylw yn y wasg o achosion sy'n datgelu pwy yw tyst ac a allai achosi problemau diogelwch.

- Os yw'r dioddefydd am aros yn ei wlad ei hun, gall yr erlynydd wneud cais dan adran 32 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i roi tystiolaeth trwy gyswllt fideo oddi yno. Fodd bynnag, ni ellir cyflwyno'r dystiolaeth heb gael caniatâd y llys.

- Ni sy'n gyfrifol am ddiogelu dioddefwyr rhag ymosodiadau diangen neu amherthnasol ar eu cymeriad a gofyn i'r llys ymyrryd os ystyrir bod croesholi yn amhriodol neu ormesol.

- Dan rai amgylchiadau, gall erlynwyr hefyd ddefnyddio grymoedd dan y Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 i ddarparu imiwnedd rhag erlyniad neu ostyngiadau mewn dedfryd i unigolion sy'n cydweithredu â'r awdurdodau.

Fodd bynnag, er mai rôl yr erlynydd yw gwneud cais i'r llys ar gyfer y mesurau hyn, y barnwr sydd i benderfynu p'un ai i ganiatáu'r cais. Wrth ystyried p'un ai i wneud hyn, bydd y barnwr yn ceisio cydbwyso hawliau'r dioddefydd yn erbyn hawliau eraill megis y diffynnydd. Bydd y Llys yn ceisio gweithredu er lles cyfiawnder.

- Bydd dioddefwyr wedi eu masnachu nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt yn cael cynnig cyfieithydd wrth roi tystiolaeth ar bob adeg. Dim ond cyfieithwyr medrus, cymwys ac wedi eu harchwilio y bydd y CPS yn defnyddio.

- Mae Datganiadau Personol Dioddefwyr yn caniatáu i ddioddefydd esbonio effaith trosedd arnynt yn bersonol. Yr heddlu sy'n gyfrifol am gymryd y datganiad hwn a rhaid cynnig y cyfle i wneud un ar y pwynt cyntaf o gymryd datganiad p'un a yw'n ysgrifenedig neu ar ffurf fideo. Gall dioddefydd hefyd ddewis gwneud un ar y pryd, neu yn ystod unrhyw gam o'r broses.

Hysbysu dioddefwyr

Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi i hysbysu dioddefwyr ynglŷn â chynnydd achos a dyddiadau gwrandawiadau llys neu ddatblygiadau pwysig eraill yn yr achos. I ddioddefwyr masnachu, bydd yr wybodaeth fel arfer yn cael ei rhoi i'r uwch swyddog ymchwilio a fydd yn hysbysu darparwr cefnogaeth y dioddefydd.

Dan y "Côd Ymddygiad ar gyfer Dioddefydd Troseddau" rhaid i'r Erlynydd hysbysu dioddefydd os byddwn yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i ddod ag erlyniad (yn dilyn adroddiad tystiolaeth llawn gan yr heddlu), neu os byddwn yn penderfynu gollwng achos, neu addasu'r cyhuddiadau'n sylweddol. Dan amgylchiadau o'r fath, byddwn yn esbonio i ddioddefydd pam ein bod wedi gwneud y penderfyniadau hyn. Fel arfer byddwn yn gwneud hyn trwy ysgrifennu llythyr at y dioddefydd.

Mewn achos o fasnachu mewn pobl, bydd yr erlynydd sydd wedi penderfynu gollwng neu addasu cyhuddiad yn sylweddol yn hysbysu'r dioddefydd o fewn un diwrnod gwaith a hefyd yn cynnig cwrdd â'r dioddefydd i esbonio'n bersonol y rhesymau dros benderfynu. Ble fo erlynydd wedi gwneud penderfyniad i beidio cyhuddo yn ystod ymgynghoriad wyneb i wyneb gyda swyddog yr heddlu (hynny yw, heb dderbyn adroddiad tystiolaeth llawn, ysgrifenedig), rhaid i swyddog yr heddlu hysbysu'r dioddefydd.

Dioddefwyr sy'n blant

Mae plentyn yn unrhyw unigolyn dan 18 oed. Masnachu mewn plant yw'r arfer o gludo plant i mewn i, o fewn ac allan o'r Deyrnas Unedig i ddibenion camfanteisio. Gall y camfanteisio amrywio ac fe all gynnwys:

- camfanteisio llafur (e.e. adeiladu, bwytai ac ati);
- caethwasanaeth domestig;
- gweithgaredd troseddol (e.e. tyfu canabis, mân droseddau stryd, masnachu anghyfreithiol ar y stryd, ac ati);
- camfanteisio rhywiol (puteindai, cymuned gaeedig, ar gyfer puteindra plant neu bornograffi, treisio plentyn, paratoi i bwrpas rhyw);
- twyll budd-daliadau;
- mabwysiadu anghyfreithiol; a
- priodas dan orfod.

Canfod achosion o fasnachu a chamfanteisio ar blant

Mae nifer o blant yn cael eu masnachu a chamfanteisio arnynt trwy fathau amrywiol o reolaeth megis trais, bygythiad o drais, cam-drin rhywiol, cam-drin alcohol a chyffuriau, cam-drin emosiynol, gorfodaeth trwy wyrdroi arferion diwylliannol a charchariad i ddarostwng dioddefwyr a sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Gwerthir rhai gan aelodau'r teulu neu maent yn gaeth i ddyled, efallai y bydd eraill yn cael eu gorfodi trwy ddulliau mwy cyfrwys. Efallai y byddant yn dod i sylw'r awdurdodau fel plant ar eu pennau eu hunain yn ceisio lloches a ganfyddir mewn porthladdoedd mynediad neu blant y mae gwasanaethau plant neu awdurdodau lleol yn dod ar eu traws. Yn aml bydd yr heddlu neu awdurdod lleol yn dod ar draws y rhai sy'n cael eu masnachu yma i weithgaredd troseddol.

Er bod y Deyrnas Unedig yn bennaf yn wladwriaeth cyrchfan ar gyfer masnachu mewn pobl, gellir masnachu plant a aned neu sydd fel arfer yn preswylio yn y Deyrnas Unedig o fewn y Deyrnas Unedig, hynny yw, eu symud o fewn y Deyrnas Unedig i gamfanteisio arnynt yn rhywiol. Mae masnachu mewnol wedi ei nodweddu gan recriwtio, paratoi neu fathau eraill o orfodaeth ar ferched neu fechgyn yn eu harddegau yn arwain at gamfanteisio rhywiol gan gangiau troseddol cyfundrefnol neu unigolion yn y Deyrnas Unedig. Gall ymchwiliadau godi dan amgylchiadau ble mae plentyn wedi mynd ar goll (yn aml, ond heb ei gyfyngu i, plant dan ofal awdurdod lleol). Yn aml mae'n cynnwys gorfodaeth gan unigolyn sy'n hŷn neu'n fwy pwerus na'r dioddefydd a gall ddechrau gydag ymddygiad megis cyfnewid bwyd am ffafrau rhywiol; efallai y byddant wedi eu cam-drin yn rhywiol cyn mynd â nhw i drefi a dinasoedd ble mae camfanteisio rhywiol (puteindra) yn parhau.

Os bydd yr heddlu yn dod ar draws plentyn yn ystod ymgyrch, fe hysbysir y Gwasanaethau Plant ar unwaith er mwyn sefydlu cynllun diogelu plentyn a chydlynu trafodaeth strategaeth. Mae Gwasanaethau Plant yn gyfrifol am ganfod llety i'r plentyn a byddant yn gweithredu ymchwiliad perthnasol ar adeg briodol.

Pryd i erlyn

Mae defnyddio plentyn mewn menter droseddol yn fath o gamdriniaeth o blentyn. Bydd y CPS yn trin plant a orfodir i buteindra, neu a gamfanteisir arnynt yn rhywiol mewn unrhyw fodd, neu eu gorfodi i gyflawni troseddau neu gael eu defnyddio gan oedolion i gyflawni troseddau, fel dioddefwyr. Mae canllaw manylach i erlynwyr yn ehangu ar y darpariaethau hyn. Mewn achosion ble mae dioddefwyr ifanc yn wynebu cyhuddiadau ar gyfer troseddau a gyflawnwyd tra mewn sefyllfa o orfodaeth, er enghraifft os ydynt wedi eu masnachu, bydd y CPS yn ymyrryd. Bydd yr erlynydd yn ystyried rhoi'r gorau i erlyn, naill ai ar sail dystiolaethol neu les y cyhoedd, ble cafwyd gwybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi hynny. Ceir rhagor o wybodaeth ar hyn yn yr adran **Erlyn y sawl a ddrwgdybir a allai fod yn ddioddefwyr masnachu**.

Bydd erlynwyr yn ystyried yr effaith ar blentyn yn ofalus cyn gwneud y penderfyniad i erlyn, ond os yw'r drosedd yn ddifrifol a'r dystiolaeth yn ddigon cryf, bydd y CPS fel arfer yn erlyn. Bydd masnachu a chamfanteisio ar blant yn cael ei ystyried yn ddifrifol ar bob adeg.

Cefnogi tystion sy'n blant

Mae canllaw wedi ei ddarparu i erlynwyr ar erlyn achosion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc fel dioddefwyr a thystion troseddau a, dan amgylchiadau priodol, fel diffynyddion. Mae'n cynghori erlynwyr bod yn rhaid iddynt sicrhau y rhoddir cefnogaeth ddigonol i'r plentyn wrth ddelio ag achosion yn ymwneud â phlant, ac y rhoddir ystyriaeth i beth sydd orau i'r plentyn os bydd erlyniad troseddol yn digwydd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys hwyluso achosion a delio â nhw â thegwch a sensitifrwydd; ble fo plant yn gysylltiedig â phuteindra, eu trin fel dioddefwyr camdriniaeth; ystyriaeth o'r defnydd o blant fel tystion, gofal tystion a mesurau arbennig i'w galluogi i roi tystiolaeth yn y modd gorau posibl o ran ansawdd eu tystiolaeth a lleihau'r trawma iddynt.

Gellir sicrhau manteision sylweddol pan fydd asiantaethau ac awdurdodau yn sefydlu perthynas weithredol agos ac yn rhannu gwybodaeth. Felly, dylai erlynwyr ymgysylltu'n bositif ag awdurdodau ac asiantaethau eraill, heb gyfaddawdu ar annibyniaeth a gwrthrychedd, i ddiogelu plant. Fforwm allweddol ar gyfer hyn yw'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol.

Mesurau Arbennig

Mae Canllaw'r Swyddfa Gartref "Cyflawni'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol: Canllaw ar Gyfweld Dioddefwyr a Thystion, a Defnyddio Mesurau Arbennig" (adolygwyd 2007) yn darparu gweithdrefn argymelledig fanwl ar gyfer cyfweld tystion sy'n blant. Mae'n ystyried cynllunio cyfweliadau, penderfyniadau ynglŷn â p'un a ddylid recordio'r cyfweliad ar fideo neu gymryd datganiad, paratoi tyst ar gyfer y llys ac ymddangosiadau dilynol yn y llys, therapi cyn yr achos a mesurau arbennig.

Dylid ystyried y cwestiwn o fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr sy'n blant a thystion yn ofalus gan yr erlynydd mewn trafodaeth â'r heddlu yn rhan o'r cyngor ar gyhuddo. Bydd tystion sy'n blant dan 17 oed yn gymwys am fesurau arbennig dan adran 16 y Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn awtomatig. Dylai erlynwyr gyfeirio at Gyflawni Tystiolaeth Orau ar gyfer canllaw ar Fesurau Arbennig. Yn ogystal â'r **Mesurau Arbennig** i oedolion, y cyfeirir atynt yn yr adran uchod, mae darpariaethau atodol ar gael i blant, yn cynnwys cyhoeddusrwydd (dan y Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933); cynnal gwrandawiadau preifat ac ymweliadau cyfarwyddo.

Yn y llys, ceir tybiaeth y dylai'r plentyn roi tystiolaeth trwy dystiolaeth fideo wedi recordio a dolen fyw i gadw'r plentyn allan o'r llys. Os dylid rhoi tystiolaeth trwy ddolen fideo, argymhellir bod cefnogwr yn eistedd yn agos i'r tyst.

Cymorth arbenigol i dystion sy'n blant

Mae cymorth ar gael mewn rhai ardaloedd gan gynlluniau cymorth arbenigol i dystion sy'n blant ac yn ôl astudiaethau mae plant yn elwa'n fawr o gefnogaeth o'r fath cyn, yn ystod ac wedi achos os byddan nhw ar gael. Dylid hefyd ystyried mesurau arbennig ar gyfer y plentyn gyda phwy bynnag sy'n cefnogi'r plentyn ar sail dydd i ddydd, hynny yw, gweithwyr allweddol mewn prosiect arbenigol neu Wasanaethau Plant.

Gellir dod o hyd i ganllaw pellach yn y canllaw a gyhoeddwyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Swyddfa Gartref "Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio'n Rhywiol" (Mehefin 2009). Mae'r canllaw hwn wedi ei anelu tuag at bartneriaid y bwrdd diogelu plant lleol, ymarferwyr a gweithwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn darparu rhagor o wybodaeth ar y ffactorau risg a modelau o gamfanteisio'n rhywiol. Fe'i bwriedir i helpu diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o, neu sydd yn dioddef, o gamfanteisio'n rhywiol. Mae'n atodol i, a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â, canllaw statudol y Llywodraeth, "Cydweithio i ddiogelu plant: Canllaw i weithio rhyngasiantaethol i ddiogelu lles plant".

Dadlau am oed

Efallai na fydd gan bobl ifanc unrhyw wybodaeth hunaniaeth arnynt, neu fe allai eu dogfennau fod yn rhai ffug neu fod rhywun wedi dweud wrthynt i ddweud celwydd am eu hoedran i osgoi sylw gan yr awdurdodau. Bydd rhai dioddefwyr yn honni eu bod yn oedolion er eu bod dan 18 oed.

Ble nad yw'n glir p'un a yw'r person ifanc yn blentyn (h.y. dan 18 oed), yna yn unol â Chonfensiwn Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig, dylid rhoi mantais yr amheuaeth iddynt a thrin y person ifanc fel plentyn. Mae hyn wedi ei ategu yng Nghonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl.

Ble ceir ansicrwydd ynglŷn ag oedran dioddefydd a amheuir, bydd Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol yn gyfrifol am asesu eu hoed. Bydd awdurdod lleol yr ardal ble'r achubwyd y dioddefydd yn gyfrifol am ofalu am y plentyn fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Plant 1989.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod eu hasesiadau'n llawn a chynhwysfawr, bod prosesau ar gyfer asesu oedran yn glir, tryloyw a theg. Dylid cyflawni asesiad cydymffurfiad â Metron; mae hyn fel arfer yn cynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb; ymchwiliad i gefndir cyffredinol yr ymgeisydd, a sicrhau ymlyniad i safonau tegwch. (Mae'r dyfarniad Merton, a wnaed gan Burnton J yn yr Uchel Lys ar 14 Gorffennaf 2003, yn rhoi "canllaw o ran gofynion asesiad cyfreithiol gan awdurdod lleol o oed ceisiwr lloches ifanc yn honni i fod dan 18 oed".)

Ble daw unigolyn gerbron unrhyw lys ac yr ymddengys ei fod yn blentyn neu berson ifanc, mae'r llys yn gyfrifol am ymholi ynglŷn â'i oedran. Yna fe ystyrir yr oed a dybir neu a ddatgenir gan y llys i fod eu gwir oed (dan adran 99 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ac adran 150 Deddf Llysoedd Ynadon 1980).

Dylai'r Llys ystyried unrhyw dystiolaeth o oed sydd ar gael yng ngwrandawiad yr achos, allai gynnwys tystiolaeth ddogfennol megis pasbort, cofnodion ysgol neu argraffiad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) wedi ei wirio gan olion bysedd yn ogystal â thystiolaeth lafar gan bobl sy'n adnabod y plentyn.

Dioddefwyr llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig

Er bod mwy o ymwybyddiaeth o fasnachu menywod a merched ifanc i gamfanteisio rhywiol a phlant i weithgaredd troseddol, mae llai o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fasnachu ar gyfer llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig.

Mae masnachu ar gyfer llafur gorfodol neu gaethwasanaeth domestig yn cwmpasu ystod eang o sefyllfaoedd o gamfanteisio yn amrywio o'r rhai sydd wedi eu cadw dan glo neu gyfyngu arnynt yn ddifrifol o ran rhyddid symudiad, a'u cam-drin yn gorfforol a rhywiol, i'r rhai sy'n cael eu twyllo am amodau eu cytundeb, yn derbyn dim neu brin ddim tâl ariannol ac yn byw a gweithio dan amodau gwael. Yn ystod cyfnod o ddirwasgiad, ble nad oes gan ddynion a menywod anghenus fawr o gyfleoedd i ennill arian, mae'r economi ddu yn ffynnu wrth fasnachu pobl neu gamfanteisio ar eu llafur.

Gweithwyr mudol - p'un a ydynt yn ymfudwyr anghyfreithiol neu ymfudwyr cyfreithiol yn gweithio'n anghyfreithlon - yw'r rhai mwyaf agored i gamfanteisio ac mae masnachwyr yn defnyddio llwybrau ymfudo rheolaidd a theithebau gwaith, ond yna'n defnyddio caethiwed dyled, cymryd dogfennau ac ansicrwydd ymfudwyr ynglŷn â'u hawliau a'u statws er mwyn gorfodi dioddefwyr i weithio. Mae nifer yn dod gan ddisgwyl mathau penodol o waith ond yna'n canfod eu bod yn gwneud math arall o waith.

Mae adran 4 y Ddeddf Lloches a Mewnfudo 2004 yn creu troseddau penodol o fasnachu unigolyn arall i'r diben o lafur gorfodol (ymddygiad sy'n mynd yn groes i Erthygl 4 Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop – caethwasanaeth neu lafur gorfodol). Dan y ddeddfwriaeth hon, mae erlynwyr y CPS wedi erlyn nifer o sefyllfaoedd o gamfanteisio yn cynnwys masnachu a chamfanteisio ar weithwyr domestig tramor, gweithwyr amaethyddol, llafurwyr ffordd, gweithwyr bwytai a chardota gan blant.

Un o'r heriau yr ydym yn wynebu wrth erlyn y rhai sy'n masnachu ac yn camfanteisio ar eu cyflogai yw'r ffaith mai prin iawn yw'r rhai sy'n fodlon dod ymlaen a chwyno i'r heddlu. Nid yw gweithwyr ymfudol y camfanteisiwyd arnynt wastad yn ystyried eu hunain i fod yn 'ddioddefwyr' troseddwyr. Er eu bod yn ymwybodol eu bod yn derbyn llai na'r isafswm cyflog ac yn gweithio oriau hir, maent yn ystyried eu sefyllfa yma i fod yn llawer gwell na'r hyn sydd ar gael yn eu mamwlad. Rydym eisiau i ddioddefwyr wybod mai'n hamcan yw erlyn y rhai sydd wedi cyflawni'r troseddau hyn yn eu herbyn. Bydd erlynwyr yn ystyried unrhyw achos sy'n ymwneud â chamfanteisio ar weithiwr ymfudol yn ddifrifol iawn a ble fo'r dystiolaeth yn cefnogi trosedd droseddol, byddwn yn erlyn.

Rydym yn cydnabod y gall fod rhwystrau yn atal dioddefwyr rhag cefnogi achos troseddol, yn arbennig os oes ansicrwydd ynglŷn â'u statws mewnfudo. Ble nodwyd dioddefwyr a'u cyfeirio trwy'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (gweler yr adran ar **Ddioddefwyr a Thystion**) efallai y bydd ganddynt hawl i drwydded breswylio os byddant yn cynorthwyo mewn achos troseddol neu ble fo'u hamgylchiadau personol yn cyfiawnhau rhoi caniatâd i aros. (Mae'r Llinell Gymorth Ymfudwyr yn darparu cymorth a chyngor perthnasol i ddioddefwyr masnachu ar gyfer llafur gorfodol. I ddioddefwyr masnachu ar gyfer caethwasanaeth domestig, Kalayaan yw'r corff anllywodraethol sy'n darparu gwasanaethau cymorth.)

Gellir hefyd erlyn cyflogwyr sy'n camfanteisio gan asiantaethau ymchwilio ac erlyn eraill megis yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE), Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau (GLA) a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS). Mae'r CPS yn gweithio gyda'r GLA ac ACPO i wella eu canfyddiad o ddioddefwyr ac i gynyddu'r nifer o ymchwiliadau ac erlyniadau yn erbyn cyflogwyr sy'n camfanteisio. Mae'r GLA mewn sefyllfa fanteisiol i allu nodi meistri gangiau allai fod yn cyflawni troseddau masnachu neu gamfanteisio ar ddioddefwyr llafur gorfodol.

Daeth trosedd benodol bellach sy'n troseddoli caethwasanaeth a llafur gorfodol i rym yn Ebrill 2010. Creodd adran 71 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 drosedd o gadw unigolyn arall mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth neu ofyn iddynt gyflawni llafur gorfodol neu ofynnol. Mae'r drosedd hon yn rhoi amddiffyniad pellach i'r rhai allai fod yn ddioddefwyr llafur gorfodol neu gaethwasanaeth. Bydd y drosedd ar gael mewn amgylchiadau ble na chafodd yr unigolyn ei fasnachu, er enghraifft, efallai ei fod yn Ddinesydd Prydeinig neu wedi dod i'r Deyrnas Unedig yn wirfoddol, neu os na ellir profi'r elfen masnachu i'r safon droseddol.

Derbyn pledion

Mae'n bosib y bydd diffynyddion eisiau pledio'n euog i rai cyhuddiadau, ond nid yr holl gyhuddiadau. Neu, mae'n bosib y byddant eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, cyhuddiad llai difrifol o bosib, oherwydd eu bod yn cyfaddef i ran o'r drosedd yn unig.

Ni ddylai erlynwyr dderbyn cynnig y diffynnydd o ble (neu bledion) euog oni bai eu bod o'r farn y gall y llys draddodi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y drosedd, yn enwedig os oes nodweddion sy'n gwaethygu'r drosedd. Er enghraifft, efallai y bydd y diffynnydd yn cynnig pledion i droseddau nad ydynt yn fasnachu mewn pobl, megis trais neu garcharu ar gam, sy'n cario cosb llawer mwy llym na masnachu mewn pobl, ac efallai y byddai ple i droseddau o'r fath yn dderbyniol yn yr achos priodol. Rhaid i erlynwyr beidio byth â derbyn ple euog dim ond oherwydd bod hynny'n gyfleus.

Wrth ystyried p'un ai i dderbyn y pledion a gynigwyd, dylai erlynwyr sicrhau yr ystyrir buddiannau a barn y dioddefydd ble bynnag fo'n bosibl wrth benderfynu p'un a yw er lles y cyhoedd i dderbyn y ple. Fodd bynnag, yr erlynydd sy'n gyfrifol am y penderfyniad yn y pen draw.

Rhaid esbonio i'r llys ar ba sail y cyflwynir ac y derbynnir unrhyw ble. Mewn achosion lle bydd diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a ble gall hyn effeithio'n sylweddol ar

y ddedfryd, fe ddylid gwahodd y llys i wrando tystiolaeth er mwyn penderfynu'r hyn a ddigwyddodd, ac yna ddedfrydu ar sail hynny.

Os bydd diffynnydd wedi nodi cyn hynny y bydd ef neu hi'n gofyn i'r llys gymryd trosedd i ystyriaeth wrth ddedfrydu, ond yna'n gwrthod cyfaddef y drosedd yn y llys, bydd erlynwyr yn ystyried a oes angen erlyn am y drosedd honno.

Rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried pledion a fyddai'n galluogi'r diffynnydd i osgoi'r ddedfryd fandadol leiaf. Wrth gynnig pledion, rhaid i erlynwyr hefyd gofio y gellir gwneud gorchmynion ategol parthed rhai troseddau ond nid eraill.

Rhaid i erlynwyr gydymffurfio â "Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Dderbyn Pledion a Rôl yr Erlynydd yn yr Ymarfer Dedfrydu" sy'n cyflwyno ehangder dyletswyddau a rôl yr erlynydd wrth dderbyn pledion euog.

Rôl yr Erlynydd mewn dedfrydu

Mae dedfrydu yn benderfyniad i'r llys ond mae gan erlynwyr ddyletswydd i gynnig cymorth wrth i'r llys dedfrydu ddod i benderfyniad o ran y ddedfryd briodol. Mae gwaredu achos troseddol yn briodol wedi euogfarn yn gymaint o ran o'r broses cyfiawnder troseddol â'r achos. Bydd hyn yn cynnwys tynnu sylw'r llys i'r ffactorau canlynol:

- unrhyw ffactorau sy'n gwaethygu a lliniaru a ddatgelir gan achos yr erlyniad;
- unrhyw Ddatganiad Personol gan y Dioddefydd;
- ble fo'n briodol, tystiolaeth o effaith y troseddu ar gymuned;
- unrhyw ddarpariaethau statudol, canllawiau dedfrydu neu achosion canllaw allai fod o gymorth; ac
- unrhyw ddarpariaethau statudol yn ymwneud â gorchmynion ategol, er enghraifft atafaeliad, fforffediad, neu alltudio'r diffynnydd neu ddiffynyddion.

Gorchmynion Ategol neu Atodol

Bydd erlynwyr hefyd yn ystyried a gwneud cais am orchmynion ategol eraill i ddiogelu dioddefwyr trosedd rhag troseddu pellach. Gellir defnyddio gorchmynion ategol, neu atodol, i ddelio â'r niwed a achoswyd gan droseddwyr a sicrhau y sefydlir mesurau effeithiol i atal erledigaeth bellach. Gellir eu defnyddio yn ystod gwahanol gamau o'r ymchwiliad neu broses erlyn neu wneud cais amdanynt yn ystod y cam dedfrydu.

Dyma ambell enghraifft o Orchmynion Ategol y gellir gwneud cais amdanynt sy'n berthnasol i fasnachu mewn pobl:

- Gorchymyn Perygl o Niwed Rhywiol (RSHO); gorchymyn ataliol sifil a ddefnyddir i ddiogelu plant o'r risgiau a gyflwynir o oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn;
- Gorchymyn Atafaelu a Fforffedu Arian;
- Gorchymyn Ataliad sy'n rhewi eiddo unrhyw le yn y byd y gellid ei werthu i ddiwallu Gorchymyn Atafaelu;
- Alltudio ble fo gwladolyn tramor yn amodol i reolaeth ymfudo os yw ef neu hi wedi ei ganfod yn euog o drosedd;
- Colli eiddo sy'n galluogi'r llys i fynd ag eiddo oddi ar droseddwr a ddefnyddiwyd, neu y bwriadwyd ei ddefnyddio, i gyflawni trosedd, er enghraifft, cerbyd;
- Gorchymyn Ataliol ar ryddfarniad;
- Warant Arést Ewrop sy'n gais a wneir rhwng awdurdodau barnwrol yr UE i estraddodi unigolion i'w herlyn, dedfrydu neu i wasanaethu dedfryd sydd eisoes wedi ei dyfarnu;
- Gorchmynion Adrodd Ariannol.

Gall adfocad yr erlyniad hefyd gynnig cymorth i'r llys trwy wneud cyflwyniadau ar yr ystod dedfrydu briodol o ganlyniad i'r ffeithiau hyn ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Dedfrydu.

Cyn dedfrydu, mae gan ddiffynnydd hawl i wneud ple lliniaru. Byddwn yn herio lliniaru gan yr amddiffyn sy'n gamarweiniol, anwir neu sy'n ymosod yn annheg ar gymeriad y dioddefydd.

Mae rhai achosion masnachu wedi sefydlu canllawiau i farnwyr ddilyn mewn achosion ble gall fod ffactorau sy'n gwaethygu tebyg, er nad oes unrhyw sicrwydd y bydd y llys yn eu dilyn. Pan fydd llys yn dedfrydu achos sydd â ffactorau tebyg sy'n gwaethygu neu liniaru ond yr ymddengys fod y ddedfryd yn sylweddol is nag y mae'r canllawiau'n cynghori, gallwn ystyried gwahodd y Twrnai Cyffredinol i gyfeirio'r ddedfryd i'r Llys Apêl fel dedfryd rhy drugarog.

Apelio dedfrydau sy'n rhy drugarog

Os bydd y barnwr yn pasio dedfryd y mae'r erlyniad yn ystyried i fod yn rhy drugarog am nad yw'n adlewyrchu difrifoldeb y drosedd yn ddigonol, bydd y CPS yn gofyn i'r Twrnai Cyffredinol arolygu'r ddedfryd. Rhaid gwneud hyn o fewn 28 niwrnod i'r penderfyniad dedfrydu. Os yw'r Twrnai Cyffredinol yn cytuno fod y ddedfryd yn rhy drugarog, gall y Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r achos at y Llys Apêl. Fodd bynnag, ni ellir cyfeirio pob trosedd Masnachu mewn Pobl at y Llys Apêl ble'r ystyrir y cafwyd dedfryd rhy drugarog.

Rhaid gwneud y cais i'r Llys Apêl o fewn 28 niwrnod o'r ddedfryd. Mae'r Llys Apêl yn penderfynu p'un a yw dedfryd yn rhy drugarog neu beidio ac, os yw, p'un ai i gynyddu'r ddedfryd.

Iawndal

Mae nifer o fecanweithiau ble gall dioddefydd geisio iawndal:

- trwy erlynwyr sy'n ceisio gorchymyn iawndal ar euogfarn mewn achosion priodol dan adrannau 130 - 132 y Ddeddf Grymoedd y Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, sy'n darparu ar gyfer gorchmynion iawndal yn erbyn diffynyddion.

- trwy atafaelu ac iawndal dan adran 13(2) y Ddeddf Elw Troseddau 2002. Yma, rhaid i'r llys bennu unrhyw gais am atafaelu cyn ystyried gorchymyn iawndal. Fodd bynnag, mae gan y llys hawl i ddewis dan adran 13(5) a (6) POCA 2002 i wneud gorchymyn iawndal ac atafaelu yn erbyn yr un unigolyn yn yr un achos os yw'n credu y bydd gan y diffynnydd ddigon o foddion i fodloni'r ddau orchymyn yn llawn.

Gall erlynwyr wneud cais am y rhain wedi euogfarn. Fodd bynnag, llwybrau amgen i geisio iawn yw:

- gall y dioddefydd erlyn y troseddwr yn y llysoedd sifil. Mae cyfreitha sifil yn dal y diffynnydd yn bersonol atebol am ei weithredoedd, er nad yw'n bosibl sicrhau cyllid ar gyfer achos iawndal sifil ar bob adeg.

- trwy'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA). Mae'r cynllun yn darparu gwobrau anafiadau personol, dan amgylchiadau penodol, i ddioddefwyr troseddau a gwobrau anafiadau marwol i aelodau teulu agos dioddefydd sydd wedi marw o ganlyniad i drosedd dreisgar. I'w hawlio, rhaid bod dioddefydd wedi cael anafiadau corfforol neu feddyliol o ganlyniad i drosedd dreisgar.

Am ganllaw ymarferol pellach ar fecanweithiau i hawlio iawndal, gweler "Rights and Recourse - A Guide to Legal Remedies for trafficked Persons in the UK", a gyhoeddwyd gan Eaves ac Anti-Slavery.

Erlyn y sawl a ddrwgdybir allai fod yn ddioddefwyr masnachu

Fe wyddom y gall oedolion a phobl ifanc gael eu harestio gan yr heddlu a'u cyhuddo o droseddau er eu bod yn ddioddefwyr masnachu. Mae hyn yn digwydd amlaf pan fyddant wedi eu masnachu neu smyglo yma i gyflawni troseddau, er enghraifft, pigo pocedi cyfundrefnol, dwyn o beiriannau codi arian neu dyfu canabis masnachol, ond gallant hefyd godi dan amgylchiadau ble maent yn dianc o'u sefyllfa o fasnachu, gyda'r mwyaf amlwg yn droseddau mewnfudo. Ble ceir achos yn ymwneud â phobl ifanc, ble ceir tystiolaeth y masnachwyd/camfanteisiwyd ar blentyn, yna byddai hynny'n gyffredinol yn darparu amddiffyniad credadwy o orfodaeth.

Mae'n canllaw cyfreithiol, "Masnachu mewn Pobl a Smyglo Pobl" yn cynghori erlynwyr wrth adolygu achos ble mae dioddefydd a fasnachwyd wedi cyflawni trosedd tra'u bod mewn sefyllfa o orfodaeth, bod achos cryf er lles y cyhoedd i atal yr erlyniad. Ble ceir tystiolaeth glir fod gan y dioddefydd amddiffyniad credadwy o orfodaeth, dylid rhoi'r gorau i'r achos ar sail dystiolaethol.

Mae'r canllaw yn glir o ran nodi ffactorau perthnasol i'w hystyried. Mae'n darparu eglurder i erlynwyr ar amgylchiadau sefyllfa'r unigolyn allai gefnogi amddiffyniad o orfodaeth dan y gyfraith, ffactorau perthnasol wrth benderfynu ar les y cyhoedd ac eglurder ar y mathau mwy cyfrwys o orfodaeth a ymarferir gan fasnachwyr a rhai sy'n camfanteisio. Cydnabuwyd y canllaw hwn gan y Llys Apêl yn achos R v O [2008] EWCA Crim 2835.

Fodd bynnag, dim ond os oes ganddynt wybodaeth gan yr heddlu neu ffynonellau eraill y gallai y sawl a ddrwgdybir fod yn ddioddefydd masnachu y dylai erlynydd gymryd y camau hyn, a dim ond os yw'r troseddu o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa fasnachu mae hyn yn berthnasol. Dylai adnabod trwy'r **Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol** gynorthwyo i ganfod y dioddefwyr hyn cyn eu harestio neu gyhuddo a helpu sefydlu eu statws dioddefydd.

Os bydd amgylchiadau'r arést neu'r dystiolaeth a gyfeiriwyd at yr erlynydd yn awgrymu y gallai rhywun fod wedi ei fasnachu, byddwn yn gofyn i'r heddlu wneud ymholiadau perthnasol a chael gwybodaeth ynglŷn ag amgylchiadau'r arést. Fodd bynnag, rhaid ystyried i ba raddau y gorfodwyd y dioddefydd i gyflawni'r gweithgaredd anghyfreithiol.

Ni all y CPS weithredu polisi cyffredinol o beidio erlyn y rhai sy'n cael eu dal a'u harestio gan yr heddlu a ganfyddir yn hwyrach i fod yn ddioddefwyr masnachu. Mae'r oblygiadau statudol a osodir ar y CPS gan y Ddeddf Erlyn Troseddau 1985 yn ei gwneud yn ofynnol i Erlynwyr y Goron arolygu pob achos a dderbyniwyd gan ymchwilwyr yr heddlu yn unol â'r Côd.

Os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi ei euogfarnu o, neu wedi pledio'n euog i drosedd troseddol, ond heb ei ddedfrydu eto, a'i bod yn dod i'r amlwg eu bod

wedi cyflawni'r drosedd o ganlyniad uniongyrchol i'w sefyllfa fasnachu, rhaid i gynrychiolydd cyfreithiol y sawl a ddrwgdybir gyflwyno cynrychiolaeth berthnasol i'r llys. Pe byddai'r CPS yn dod yn ymwybodol o achosion unigol yn ymwneud â diffynyddion heb gynrychiolaeth, yna fe fyddai'r CPS yn ystyried arolwg pellach o'r achosion hynny.

Dulliau eraill o amharu ar fasnachu

Mewn achosion ble ceir anawsterau i sicrhau tystiolaeth ddigonol i gael erlyniad troseddol yn erbyn y rhai sy'n masnachu neu gamfanteisio ar ddioddefwyr, mae yna nifer o asiantaethau erlyn eraill sy'n gallu gweithredu. Ymhlith y rhain mae:

- Uned Trethi Troseddol **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi** (HMRC) all drethu i bob pwrpas, trwy ddulliau sifil a throseddol, incwm, elw ac enillion o weithgareddau troseddol yn gysylltiedig â masnachu mewn pobl.

  Yn ogystal, mae'r HMRC yn cydweithio gyda thîm ymchwiliadau troseddol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i erlyn mewn achosion perthnasol, er enghraifft, mewn bariau ewinedd sy'n aml yn camfanteisio ar ddioddefwyr masnachu sy'n gweithio yno.

  Mae timau Economi Cudd ac adnoddau Efadu Trethi Croes yr HMRC yn targedu lleoliadau adloniant oedolion sy'n parhau i fod yn rhan o'r economi gudd ac yn camfanteisio ar y rhai allai fod yn agored i niwed yn eu busnes.

- Sefydlwyd yr **Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau** (GLA) yn 2005 i reoleiddio meistri gangiau trwy orfodi safonau trwyddedu a diddymu trwyddedu mewn sefyllfaoedd ble pennir bod cyflogeion yn wynebu risgiau difrifol. Mae'r GLA mewn sefyllfa dda i nodi dioddefwyr posibl yn rhan o'u cylch gorchwyl yn gorfodi safonau trwyddedu a diddymu trwyddedau mewn sefyllfaoedd ble, er enghraifft, mae cyflogeion yn cael eu cam-drin neu eu camddefnyddio. Mae'r CPS yn gweithio'n agos gyda'r GLA ac ACPO mewn gwaith ar y cyd i annog ymchwilio pellach ac erlyn yr achosion hyn.

- Gall y **Gweithgor Iechyd a Diogelwch** (HSE) ymchwilio ac erlyn y rhai sy'n rhoi eu cyflogeion mewn perygl o anaf neu golli bywyd trwy amodau gwaith peryglus sy'n aml yn gysylltiedig â chyflogwyr sy'n camfanteisio. Ynghyd ag awdurdodau lleol, mae'n gyfrifol am ymchwilio digwyddiadau iechyd a diogelwch sy'n deillio o, neu mewn cysylltiad â, gwaith a gweithredu'n orfodol ble fo'n briodol.

Cwynion

Gall unrhyw un sydd â chwyn ynglŷn â'r modd mae'r CPS wedi eu trin, neu sy'n teimlo fod y system gyfiawnder droseddol wedi eu methu ac nad ydynt yn gwybod pwy allai fod yn gyfrifol, ysgrifennu at y Prif Erlynydd Cyhoeddus ar gyfer yr Ardal CPS ble maent yn byw neu ble cyflawnwyd yr ymchwiliad. Mae gan y CPS bolisi cwynion, a gellir dod o hyd i'r weithdrefn i'w dilyn ar wefan y CPS.

Dylid cyfeirio toriadau ar y Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau at y CPS yn gyntaf i ddelio â nhw dan ein gweithdrefnau cwynion. Os yw'r achwynydd yn dal yn anfodlon, yna gellir ymchwilio ac adrodd ar y gŵyn gan yr Ombwdsmon Seneddol.

Casgliad

Rydym yn ymroddedig i chwarae ein rhan o ran gwella'r modd y delir ag achosion o fasnachu mewn pobl yn y system gyfiawnder troseddol ac i gynyddu'r nifer o achosion yr ydym yn erlyn. Rydym am i ddioddefwyr a'r cyhoedd gael hyder yn y modd yr ydym yn arolygu a symud achosion ymlaen.

Gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn helpu'r rhai hynny sy'n cefnogi dioddefwyr sydd wedi eu masnachu (p'un ai'n broffesiynol neu'n bersonol), dioddefwyr eu hunain a'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall gwaith y CPS, sut fyddwn yn gwneud ein penderfyniadau a gwahanol gamau y broses erlyn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn y system gyfiawnder droseddol a'r trydydd sector ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i'n helpu i ddatblygu ymarfer gorau.

Byddwn yn arolygu'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd fel ei fod yn adlewyrchu cyfraith a meddylfryd presennol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ac arsylwadau i'n helpu i wneud hyn.

Gellir gwneud sylwadau ac awgrymiadau i'r Gyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi, Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Atodiad A: *Deddfwriaeth*

Deddfwriaeth Droseddol

Deddf Troseddau Rhywiol 2003:

- Adran 57 Masnachu i'r Deyrnas Unedig i gamfanteisio'n rhywiol
- Adran 58 Masnachu o fewn y Deyrnas Unedig i gamfanteisio'n rhywiol
- Adran 59 Masnachu o'r Deyrnas Unedig i gamfanteisio'n rhywiol
- Adran 52 a 53 Achosi neu annog a rheoli puteindra er elw
- Adran 1 Trais

Deddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth o Hawlwyr ac ati) 2004:

- Adran 4 Masnachu i mewn i, o fewn ac allan o'r Deyrnas Unedig i ddibenion camfanteisio heb fod yn rhywiol

Deddf Mewnfudo 1971:

- Adran 25 deddf hwyluso mewnfudo (smyglo)

Deddf Troseddau Rhywiol 1956:

- Adran 33A Rheoli neu gynorthwyo i reoli puteindy
- Adran 34 Gosod eiddo i'w ddefnyddio fel puteindy
- Adran 35 a 36 Caniatáu i denant ddefnyddio eiddo fel puteindy neu i ddibenion puteindra

Deddf Troseddau'n erbyn yr Unigolyn 1861:

- Adran 16 Bygythiadau i ladd

Y Gyfraith gyffredin:

- Herwgipio
- Camgarcharu

Deddf Elw Troseddau 2002:

- Adrannau 327, 328 a 329 Gwyngalchu arian

Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006:

- Adran 54 Fforffediad i atafaelu a fforffedu cerbydau tir, llongau ac awyrennau a ddefnyddiwyd i fasnachu pobl

Deddf Dynwarediad a Ffugiad 1981:

- Adran 1 Gwneud neu reoli offeryn ffug

Deddf Cardiau Adnabod 2006:

- Adrannau 25 neu 26 Meddiant o ddogfennau adnabod ffug

Deddf Plismona a Throsedd 2009:

- Adran 14 talu am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i rym neu gamfanteisio

Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009:

- Adran 71 cadw rhywun arall mewn caethiwed neu gaethwasanaeth neu ofyn iddynt berfformio llafur gorfodol neu ofynnol

Deddf Cyfraith Droseddol 1977:

- Adrannau 1 ac 1A Cynllwynio i gyflawni troseddau yma a thramor

Cyfryngau Rhyngwladol

- Cafodd Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol ei gynnwys yng nghyfraith y Deyrnas Unedig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998

- Protocol y Cenhedloedd Unedig i Atal, Darostwng a Chosbi Masnachu mewn Pobl, yn arbennig Menywod a Phlant

- Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu mewn Pobl
- Confensiwn Palermo ar weithredu yn erbyn masnachu mewn pobl
- Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod
- Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn

Atodiad B: Rhestr o fanylion cyswllt asiantaethau

Noder: Nid yw'r rhestr o asiantaethau a'u manylion cyswllt yn rhan o'r ymarfer ymgynghori. Yr asiantaethau y bydd eu manylion cyswllt yn cael eu darparu yn yr atodiad hwn yw:

11 Million

AFRUCA

Amnesti Rhyngwladol y DU

Anti-Slavery International

Barnardo's

Cambridge Centre for Applied Research in Human Trafficking

CARE

Comic Relief

CROP

DePaul Trust

Eaves Housing for Women (POPPY Project)

ECPAT

English Collective of Prostitutes

Hibiscus

IOM London

Kalayaan

London School of Health & Tropical Medicine

Medaille Trust

Llinell Gymorth Mudwyr

NACAB

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched

NSPCC

Y Groes Goch

Cyngor y Ffoaduriaid

Safe and Sound Derby

Byddin yr Iachawdwriaeth

Achub y Plant

Stop the Traffik

TARA

UK National Sexworkers Project

UNICEF

Unseen UK

Rhestr Termau

Noder: Nid yw'r Rhestr Termau yn rhan o'r ymarfer ymgynghori.

Ymgynghoriad ar Ddatganiad Polisi Cyhoeddus y CPS ar Erlyn achosion Masnachu mewn Pobl Gorffennaf 2010

Ffurflen Ymateb **I ddeall beth allai ddigwydd i'ch manylion personol a'r ymatebion a roddwch, darllenwch yr wybodaeth "cyfrinachedd ymatebion" sydd ar gael trwy fynd i hafan yr ymgynghoriad yn: www.cps.gov.uk/consultations/ht_index.html**	
Os ydych yn aelod o'r cyhoedd neu o sefydliad (yn cynnwys corff statudol), cwblhewch y manylion canlynol:	
Eich enw	
Unrhyw sefydliad yr ydych yn cynrychioli	
Cyfeiriad post	
Rhif ffôn cyswllt	
Cyfeiriad e-bost	
Os ydych yn aelod o staff y CPS, cwblhewch y manylion canlynol:	
Eich enw	
Eich Ardal, Grŵp, Is-adran Pencadlys, neu Gyfarwyddfa	
Rhif ffôn cyswllt	

1. A yw'r cyflwyniad yn esbonio'r rheswm dros y ddogfen yn glir ac yn dangos faint o bwys mae'r CPS yn rhoi ar daclo masnachu mewn pobl? Os nad yw, awgrymwch sut y gallem wneud hyn yn gliriach.

2. A yw'r disgrifiad o ddeddfwriaeth masnachu mewn pobl a smyglo wedi ei esbonio'n eglur?

3. A yw rôl y CPS a'r esboniad o sut ydym yn gwneud penderfyniadau i erlyn yn glir? Os nad yw, awgrymwch sut allem wneud y ddwy adran hon yn fwy eglur.

4. A ydym wedi darparu digon o esboniad o sut ydym yn creu erlyniad mewn achosion o fasnachu mewn pobl? A oes digon o esboniad o rôl y dioddefydd a beth allwn wneud i gefnogi'r dioddefwyr a'r tystion?

5. A ydym yn dangos yn ddigon clir sut fyddwn yn delio â phlant fel dioddefwyr a thystion a'n polisi ble gallai plentyn wynebu cyhuddiadau am droseddau y cawsant eu gorfodi i gyflawni tra'u bod mewn sefyllfa o orfodaeth? Os na, dywedwch sut y gallem wneud hynny.

6. A yw rôl erlynwyr wrth dderbyn pledion a dedfrydu'n eglur? A oes angen i ni ddarparu mwy o wybodaeth i esbonio dulliau eraill o aflonyddu ar fasnachwyr?

7. Unrhyw sylwadau eraill am y ddogfen hon?

Ble i anfon eich ffurflen wedi ei chwblhau	
Trwy e-bost at	**consultations@cps.gsi.gov.uk**
Trwy'r post i	Ymgynghoriad Masnachu mewn Pobl Cyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi Gwasanaeth Erlyn y Goron Rose Court 2 Southwark Bridge Llundain, SE1 9HS
Rhaid derbyn pob ymateb erbyn **Dydd Sul 31 Hydref 2010**	